Rhaglen Gyflawn

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

| Cyfarfod |
| --- |
| **BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU** |

| Dyddiad ac Amser |
| --- |
| **9.00 y.b., DYDD GWENER, 20FED MEDI, 2024** |

| Lleoliad |
| --- |
| **Cyfarfod Rhithiol** |
| **(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)** |

| Pwynt Cyswllt |
| --- |
| **Rhodri Jones** |
| **01286 679556** |
| **rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru** |

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dyfrig Siencyn | Cyngor Gwynedd |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Wrecsam |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Aled Jones-Griffith | Grwp Llandrillo Menai |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dewi Morgan | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Rhaglen |
| Hedd Vaughan Evans | Pennaeth Gweithrediadau |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 5 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024 fel rhai cywir.

## 5. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2024 15 - 23

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya a Swyddog Cyllid Statudol) a Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya) i gyflwyno'r adroddiad.

## 6. CYD-BWYLLGOR BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU - CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2024 24 - 41

I gyflwyno Cynllun Archwilio Manwl ar gyfer Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a ddarparwyd gan Archwilio Cymru.

## 7. DI-WIFR UWCH - ACHOS BUSNES AMLINELLOL 42 - 105

Stuart Whitfield (Rheolwr y Rhaglen Ddigidol) i gyflwyno'r adroddiad.

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif

o’r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau’r cyrff a’r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a’r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i’r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## 9. PROSIECT RHWYDWAITH TALENT TWRISTIAETH - ACHOS BUSNES LLAWN

Dafydd Owen Jones (Rheolwr Prosiect Bwyd-amaeth a Thwristiaeth) a Colin David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo y Cynllun Twf) i gyflwyno’r adroddiad.

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**19/07/2024**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir Y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr –Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes), Maria Hinfelaar (Prifysgol Wrecsam) a Chris Drew (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Andrew Farrow (Cyngor Sir y Fflint), Llyr Beaumont Jones (Cyngor Gwynedd) Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych)

Swyddogion yn bresennol -

Awdurdod Lletya - Iwan G Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Siân Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru - Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Elgan Roberts (Rheolwr Rhaglen Ynni) a Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol).

Sylwedyddion – Wendy Boddington (Sylwedydd, Llywodraeth Cymru) a John Hawkins (Llywodraeth y DU).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Is-gadeirydd)
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Chris Drew yn dirprwyo;
- Yr Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam)
- Yana Williams (Coleg Cambria)
- Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai)
- Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint) gydag Andy Farrow yn dirprwyo;
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Llyr Beaumont Jones yn dirprwyo.
- **Gareth Ashman a Susan Concoran (Sylwedyddion Llywodraeth y DU) gyda John Hawkins yn dirprwyo.**

Croesawodd y Cadeirydd y dirprwyon i'r cyfarfod.

Diolchwyd i Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf) am ei chyfraniad sylweddol i waith y Bwrdd Uchelgais dros nifer o flynyddoedd, wrth iddi fynychu ei chyfarfod olaf. Mynegwyd dymuniadau da iddi i'r dyfodol.

Rhannwyd datganiadau o ddymuniadau da i Llinos Medi (cyn Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn) wedi iddi fod yn llwyddiannus yn yr Etholiad Gyffredinol yn ddiweddar. Diolchwyd iddi

am ei chyfraniad i’r Bwrdd yn ystod ei chyfnod fel Cynghorydd a dymunwyd pob llwyddiant i’r dyfodol.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Chris Drew (Prifysgol Bangor) ar gyfer Eitem 11. Nodwyd ei fod yn fuddiant sy’n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2024 fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHWARTER 1 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau gyda chefnogaeth swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD**

1. **Ystyriwyd ac nodwyd Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi’i ddiweddaru.**
2. **Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 i Lywodraeth Cymru a Llwyodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu’r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd Uchelgais, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Tywyswyd yr Aelodau drwy ddiweddariadau Uchelgais Gogledd Cymru gan dynnu sylw penodol at y rhaglenni canlynol:

<u>Y Rhaglen Ddigidol</u>
Mynegwyd balchder bod Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig ‘4G+’ wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth. Esboniwyd bod y gwaith o ddatblygu Achos Busnes Lawn gan gynnwys paratoadau ar gyfer ymgysylltu â’r farchnad eisoes wedi cychwyn.

Nodwyd bod Adolygiad Porth 2 ar Achos Busnes Amlinellol cynllun Di-wifr Uwch Campysau Cysylltiedig wedi ei gwblhau ym mis Mai. Cadarnhawyd bod y prosiect wedi derbyn graddfa Ambr a phwysleisiwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i’r afael â’r argymhellion cyn cyflwyno’r Achos Fusnes Amlinellol i’r Bwrdd ym mis Medi.

Cyfeiriwyd at nifer o brosiectau rhanbarthol sydd ar waith er mwyn cefnogi busnesau bach a chanolig i ymchwilio i dechnolegau newydd ac i wella cysylltedd band eang mewn cymunedau lleol. Nodwyd bod y prosiectau hyn wedi ei ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Rhaglen Ynni Carbon Isel
Datganwyd bod prosiect 'Egni' arweinir gan Brifysgol Bangor yn gwneud cynnydd da. Nodwyd bod Cam 3 RIBA yn barod i'w lofnodi'n derfynol a gobeithiwyd bydd Achos Busnes Llawn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn y gwanwyn. Yn yr un modd, cadarnhawyd bod cynnydd cadarnhaol wedi ei wneud i oresgyn materion allweddol yn ymwneud â chytundeb ariannu'r prosiect Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy, cyn cyflwyno'r achos Busnes Llawn i'r Bwrdd ei ystyried.

Nodwyd bod cydweithrediad cadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer gwireddu prosiect Hwb Hydrogen Caergybi. Esboniwyd bod y prosiect yn gobeithio cryfhau'r sefyllfa pryniant 'offtake' ar gyfer Hydrogen cyn symud ymlaen i'r can nesaf.

Cadarnhawyd bod dogfennau tendr Ymgynghorydd y Gronfa ynghlwm â phrosiect Ynni Lleol Blaengar ar hyn o bryd yn cael ei cwblhau, ynghyd ar amserlen ar gyfer lansio'r tendr ac adolygu'r cyflwyniadau yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd.

Rhaglen Tir ac Eiddo
Cyfeiriwyd at nifer o brosiectau'r rhaglen gan gynnwys Warren Hall, Porth y Gorllewin, Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Parc Bryn Cegin, Porth Wrecsam a Phorth Caergybi.

Esboniwyd bod Stage Fifty Ltd, datblygwyr prosiect Stiwdios Kinmel, wedi ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr ar ddechrau Ebrill 2024 gan eu prif ariannwr. Pwysleisiwyd bod trafodaethau arfaethedig wedi ei cynnal rhwng swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r unigolion allweddol oedd ynghlwm wrth y cynnig gwreiddiol. Cadarnhawyd bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud er mwyn ystyried a oes modd datblygu'r cais diwygiedig. Hyderwyd bydd modd cyflwyno'r prosiect cyn diwedd y flwyddyn er y risgiau. Gobeithiwyd bydd cytundebau ar ariannu'r prosiect yn cael eu cadarnhau erbyn yr Hydref.

Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth
Adroddwyd bod prosiect Anturiaethau Cyfrifol yn parhau i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol drwy ymweliadau safle gyda rhanddeiliaid a pharatoi ar gyfer ceisiadau cyn-cynllunio. Nodwyd y gobeithir i'r Achos Busnes Amlinellol gael ei gyflwyno i'r Bwrdd cyn diwedd y flwyddyn hon.

Soniwyd bod tîm y Rhwydwaith Talent Twristiaeth a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cydweithio i gwblhau'r caffael a'r Achos Busnes Llawn. Eglurwyd hefyd bod gwaith yn mynd rhagddo ar gyfer ail-frandio, prosiect sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin er mwyn hybu ymgysylltu â myfyrwyr. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn dewis is-ganolfan terfynol y prosiect.

Cydnabuwyd bod swyddogion yn ystyried opsiynau amgen ar gyfer Canolbwynt Economi wledig Glynllifon wedi iddynt dderbyn adborth arolygon amgylcheddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Atgoffwyd bod grŵp tasg a gorffen a sefydlwyd ar gyfer archwilio bwlch yn y meysydd amaeth a garddwriaeth y Cynllun Twf wedi derbyn adroddiad ymchwil drafft. Cadarnhawyd bod y grŵp yn gweithio gyda'r Bwrdd Rhaglen a rhanddeiliaid ehangach er mwyn cwblhau'r adroddiad a'i rannu'n rhanbarthol.

Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch
Soniwyd bod y gwaith o adeiladu'r Ganolan Opteg a Pheirianneg Menter yn datblygu'n dda gan nodi bod caffael pellach ar gyfer y prosiect wedi ei lansio er mwyn adnewyddu opteg, meddu ag offer addas yn ogystal â datblygu'r elfen hydrogen ohono.

Aethpwyd ymlaen i fanylu ar Gofrestr Risg y Portffolio gan gadarnhau bod risg gros 'Caniatâd Cynllunio a Statudol' wedi cynyddu yn ystod y chwarter. Nodwyd bod y risg hwn yn uchel ond mae caniatâd yn cael ei reoli ar lefel rhaglen a phrosiect o fewn y Cynllun Twf er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n effeithiol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**6. DATGANIAD O GYFRIFON Y BUEGC AM 2023/24**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Cyllid Statudol.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon Drafft y Bwrdd Uchelgais (yn amodol ar archwiliad) am 2023/24.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nid oes gofyn statudol i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cydbwyllgor, ond rydym yn ystyried fod cyflwyno'r datganiad drafft er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn.

Bydd angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn terfynol ar ôl derbyn adroddiad Archwilio Cymru, ond mae cyflwyno fersiwn ddrafft rŵan yn gyfle i aelodau'r Bwrdd ystyried y cynnwys a holi swyddogion ariannol am y cynnwys. Mae hyn yn gyfle i'r Aelodau arfogi eu hunain gyda gwybodaeth berthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad eisoes wedi ei rannu mewn ffurf amgen yng nghyfarfod bwrdd ar 17eg o Fai eleni wrth ystyried sefyllfa Alldro Refeniw a Chyfalaf y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2023/24, ac atgoffwyd yr Aelodau o'r penderfyniadau a wnaed. Pwysleisiwyd bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr Adroddiad hwn yn gyson gyda'r wybodaeth hynny.

Eglurwyd bod yr Adroddiad yn cyflwyno materion technegol yn ymwneud â chonfensiynau cyfrifo. Cyfeiriwyd at wahanol rannau'r Adrannau gan fanylu ar wariant cyfalaf, balansau'r cronfeydd a chyfanswm grantiau a dderbyniwyd hyd at 31 Mawrth 2024.

Cadarnhawyd bod gwerth yr asedau pensiwn yn parhau i fod yn fwy na gwerth yr ymrwymiadau. Ymhelaethwyd bod sefyllfa ased net o £404,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cydnabuwyd bod hyn yn ostyngiad o'r flwyddyn flaenorol ble roedd sefyllfa ased net yr asedau pensiynau yn £572,000. Eglurwyd bod lleihad eleni gan fod prisiau'r actwari yn defnyddio bondiau corfforaethol y Deyrnas Unedig. Nodwyd bod cynnyrch y bondiau corfforaethol wedi bod yn uchel o ganlyniad i log uchel a chwyddiant uchel, gan arwain at gyfraddau disgownt cyfrifyddu uwch sy'n rhoi gwerth sylweddol is ar yr ased o ganlyniad i log uchel a chwyddiant ychwanegiadau pensiwn. Cadarnhawyd yr addaswyd gwerth yr ased ar y fantolen a'i ddangos fel £0 yn unol â'r cyfarwyddyd gan yr actwari.

Adroddwyd bod y Swyddog Cyllid Statudol wedi arwyddo'r Datganiad ar 21 Mehefin 2024 gan dystio ei fod o'r farn ei fod wedi ei baratoi yn unol â'r cod ymarfer a osodwyd gan Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol. Credir fod y datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Uchelgais ar 31 Mawrth 2024 yn ogystal ag incwm a gwariant y Cyd-bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y diwrnod hwnnw.

Pwysleisiwyd bod y Datganiad yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol y Bwrdd Uchelgais, ar hyn o bryd. Ymhelaethwyd bydd y cyfrifon terfynol yn ogystal ag adroddiad yr archwilwyr yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn ystod yr hydref.

Ystyriwyd bod lefelau reserfau wedi dyblu yn y blynyddoedd diwethaf er mwyn ariannu cronfa incwm llog. Eglurwyd bydd yr arian hwn yn cael ei wario yn y dyfodol os bydd cyfraddau llog yn parhau i fod yn uchel a phetai'r yr angen i fenthyca yn codi gan nad yw'r arian grant sydd wedi ei dderbyn yn ddigonol i gwrdd â'r anghenion gwariant. Nodwyd bydd y gronfa hon yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r cyfraddau llog hynny. Tynnwyd sylw at gynlluniau i wario'r reserfau yn y blynyddoedd i ddod megis ariannu cyflogaeth swyddogion y Swyddfa Bortffolio. Pwysleisiwyd bod swyddogion yn cadw golwg parhaus ar y cronfeydd a'r sefyllfa ond ystyriwyd bod y Bwrdd mewn sefyllfa gyfforddus ar hyn o bryd.

Esboniwyd nad oes gofyn statudol i'r Cyd-bwllgor gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r cyfrifon ond ystyriwyd bod cyflwyno'r Datganiad drafft yn ymarfer dda.

**7. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn a cymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (fel y'i diwygiwyd) yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gydbwyllgorau ffurfiol.

Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Bwrdd Uchelgais.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr Adroddiad yn eu ffurf flynyddol gan gadarnhau mai newidiadau bychain a wnaed eleni yn unol â sylwadau ac argymhellion gan archwilwyr.

Eglurwyd bod yr Adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth ar nifer o faterion er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu mewnol yn gadarn ac yn addas i bwrpas.

**8. LPWAN (LOW-POWER, WIDE AREA NETWORK) – ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Rhaglen Ddigidol.

**PENDERFYNIAD**

1. **Cymeradwyo Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer y prosiect LPWAN ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, i gaffael a sefydlu'r fframweithiau gofynnol i gyflawni'r prosiect, yn amodol ar y Swyddfa Rheoli Portffolio yn ymdrin â'r materion sy'n parhau fel nodir yn Adran 7.1 o'r adroddiad.**
2. **Nodi'r broses ar gyfer cael mynediad at gyllid drwy'r fframweithiau yn cynnwys cyflwyno cynllun cyflawni ar gyfer pob ardal awdurdod lleol a dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad a'r Aelod Arweiniol ar gyfer y Rhaglen Ddigidol a'r Bwrdd Rhaglen Ddigidol i gymeradwyo'r cynlluniau cyflawni a dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio yn unig y dyraniad cyllid dilynol drwy'r fframweithiau.**
3. **Nodi bod yr Achos Cyfiawnhad Busnes LPWAN yn is-gyfres o'r prosiect Campysau Cysylltiedig mwy y bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu ohono ac yn cytuno i'r egwyddor bod unrhyw danwariant yng nghyllideb y prosiect LPWAN yn cael ei glustnodi i'r prosiect Campysau Cysylltiedig yn y lle cyntaf.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i'r Achos Cyfiawnhad Busnes Llawn ar gyfer Prosiect LPWAN.

Fel prosiect sy'n cael ei gyflawni gan Uchelgais Gogledd Cymru, mae angen cymeradwyaeth gan y Bwrdd i sefydlu'r fframweithiau fydd yn cyflawni'r prosiect. Oherwydd natur a gwerth y prosiect, yn unol â chanllawiau 'Better Business Case' cyflwynir Achos Cyfiawnhad Busnes sy'n gofyn am gymeradwyaeth sengl gan y Bwrdd yn unig.

**TRAFODAETH**

Esboniwyd bod y defnydd o  Ryngrwyd Pethau (IoT) - sef rhwydwaith o ddyfeisiau a synwyryddion sy'n gallu casglu a rhannu data gyda phobl neu ddyfeisiadau eraill, a gweithredu yn unol â'r wybodaeth - wedi tyfu'n gyflym mewn defnydd ac amrywiaeth ers 1999. Cadarnhawyd bod oddeutu 950 o byrth i Ryngrwyd Pethau dros Brydain. Ymhelaethwyd bod y datblygiadau hyn mewn casglu data o ansawdd uchel yn caniatáu defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus. Manylwyd bod hyn yn bosibl gan bod defnyddwyr yn derbyn gwybodaeth fanwl am ased ar wahanol raddfeydd, pellteroedd ac amleddau, drwy gyfrwng sy'n gwaredu'r heriau cyffredinol o gasglu data. Eglurwyd bod nifer o Rwydweithiau Pethau preifat eisoes yn bodoli ym Mhrydain megis mesuryddion clyfar a systemau monitro amgylcheddol.

Nodwyd bod Rhyngrwyd y Pethau yn cael eu defnyddio ym Mhrydain ac yn fyd-eang i gyflawni buddion economaidd ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Cadarnhawyd mai nod y prosiect hwn yw ehangu'r defnydd o Ryngrwyd Pethau, sydd â chymwysiadau eang yn y rhanbarth, gan ddefnyddio'r sector gyhoeddus fel defnyddiwr angor i gefnogi hygyrchedd ehangach i'r sector preifat.

Adroddwyd bod pedair prif amcan gwariant i'r prosiect LPWAN, sef:

1. Cyflawni cysylltedd LPWAN fforddiadwy a rhwydd i'w ddefnyddio, i leoliadau o flaenoriaeth yn siroedd y rhanbarth erbyn 2027 (gan alluogi effeithlonrwydd ledled gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi arloesedd yn y sectorau preifat a chyhoeddus).
2. Cefnogi mabwysiadu 10-20 rhaglen newydd o dechnoleg LPWAN ledled y sectorau cyhoeddus a phreifat yn y rhanbarth erbyn 2032.
3. Cefnogi rhwng £0.1m a £0.5m o fuddsoddiad yn y rhanbarth erbyn 2032.
4. Cefnogi creu 20 o swyddi yn y rhanbarth erbyn 2032.

Cadarnhawyd bod rhwydweithiau LPWAN wedi eu cynllunio ar gyfer cymwysiadau a gwasanaethu Rhyngrwyd Pethau sydd â chyfraddau data isel, batrïau hir oes a gallant weithredu mewn lleoliadau anghysbell ac anodd eu cyrraedd.

Esboniwyd bydd nifer o dechnolegau yn cael eu defnyddio fel rhan o'r cynllun LPWAN, gan gynnwys LTE-M ac NB-IoT. Nodwyd bod y rhain yn cael eu defnyddio mewn cyswllt â rhwydweithiau ffonau symudol gan fanylu bydd modd integreiddio rhwydwaith LPWAN ar orsafoedd sylfaen symudol (mastiau ffôn) presennol. Ystyriwyd bod defnyddio'r rhain fel rhan o'r rhwydwaith yn addas gan eu bod wedi'i optimeiddio ar gyfer bywyd batri hir iawn ac yn gallu ymdopi â chyfraddau data uwch oherwydd eu bod fel arfer yn cael darparu gwasanaeth i ddefnyddwyr am ffi yn fisol yn unol â rheolaeth y cwmni darparol.

Ymhelaethwyd bydd technoleg LoRa hefyd yn cael ei ddefnyddio o fewn cynllun LPWAN. Esboniwyd ei fod yn ffynhonnell technoleg agored gan ddefnyddio **trwydded di-sbectrwm**. Nodwyd ei fod yn ddull effeithiol o ddarparu gwasanaeth da gyda phŵer trosglwyddiadol isel iawn wrth hefyd ganiatáu adeiladu datrysiad preifat diwedd i ddiwedd.

Cydnabuwyd gall derbyn mynediad i rwydwaith LPWAN fod yn heriol i fusnesau bach yn sgil y buddsoddiad cychwynnol gofynnol, yn enwedig ble nad ydynt wedi treialu defnydd y rhwydwaith i'w busnes cyn ymrwymo'n ariannol. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at feysydd ble mae defnyddio rhwydwaith LPWAN wedi bod yn llwyddiant megis: gwella'r defnydd o wrtaith a monitro amodau pridd yn y maes amaethyddol yn ogystal â monitro defnydd bae parcio a niferoedd ymwelwyr mewn adeiladau o fewn y maes twristiaeth.

Datganwyd bod oddeutu 100 o byrth i'r rhwydwaith dros ranbarth Gogledd Cymru ar hyn o bryd a nodwyd bydd y prosiect yn llenwi'r bylchau a welir yn y system ar hyn o bryd drwy ddatblygu fwy o byrth i'r rhwydwaith. Gobeithiwyd bydd oddeutu 250 o byrth i'r rhwydwaith wrth i'r prosiect ddatblygu. Llongyfarchwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar lwyddo i weithredu LPWAN dros gyfran helaeth o'r Sir, ond eglurwyd bydd y pyrth hyn yn sicrhau bod mynediad i'r rhwydwaith ym mhob rhan o'r rhanbarth yn unol â'r gofynion i lenwi bylchau.

Soniwyd mai cam cyntaf y cynllun bydd i ddatblygu mapio cychwynnol y lleoliadau porth gorau posibl. Esboniwyd bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn caffael y pyrth gan roi'r cyfle i'r awdurdodau lleol i fuddsoddi yn y pyrth hynny. Cadarnhawyd bydd hyn yn sicrhau bod y fframwaith yn parhau i fod yn gyflawn ac yn derbyn yr un rheolaeth ar draws y rhanbarth. Ymhelaethwyd bod ail gam y cynllun yn sicrhau'r defnydd o synwyryddion er mwyn dangos ceisiadau a buddion ar draws y gwasanaethau. Eglurwyd bydd hyn yn arwain at drydedd cam y cynllun gan alw ar Arweinyddion yr awdurdodau lleol i'w hyrwyddo ac ysgogi'r gallu i ychwanegu defnyddwyr ychwanegol i'r rhwydwaith.

Pwysleisiwyd bydd dyddiadau gosod ar gyfer ymuno a'r rhwydwaith yn cael eu pennu am gyfnod o dair blynedd unwaith bydd yr awdurdodau lleol wedi darparu rhestr o safleoedd i'r pyrth angenrheidiol. Ymhelaethwyd bydd gofyn i'r awdurdodau adrodd ar y buddion maent wedi ei weld wedi iddynt wneud defnydd o'r rhwydwaith yn ogystal â monitro'r niferoedd sy'n mabwysiadu'r rhwydwaith o'r sector breifat.

Datganwyd bod yr achos cyfiawnhad busnes hon wedi cael ei adolygu a bod adborth strategol, economaidd, masnachol ac ariannol wedi ei dderbyn. Manylwyd ar adborth rheolaethol a dderbyniwyd gan gadarnhau bydd rheolwr prosiect rhan amser yn cael ei benodi ym mis Medi er mwyn goruchwylio'r diweddariadau. Nodwyd bydd swyddogion hefyd yn diweddaru'r gofrestr risg gan gadw mewn cysylltiad cyson gyda'r awdurdodau lleol er mwyn bod yn ymwybodol o'u gofynion ynglŷn â'r rhwydwaith.

Cydnabuwyd bod rhai risgiau i'r cynllun gan gynnwys:

- **Cyllid Refeniw** - Nodwyd bod yr awdurdodau lleol yn cwrdd â'r costau refeniw wrth gefnogi'r capasiti ychwanegol a chyflawni'r gweithgareddau hybu galw cymedrol dros gyfnod o dair blynedd. Nodwyd bydd cynlluniau cyflawni lleol y cynghorau yn cadarnhau lefelau defnyddio y gellir ymdopi â hwy a phwysleisiwyd bod yr awdurdodau wedi rhoi adborth cadarnhaol nad yw'r cynnydd yng nghostau'r defnydd yn un sy'n achosi pryder.
- **Mabwysiadu gan y sector gyhoeddus** - Soniwyd os nad yw'r cynghorau yn llwyddo i adnabod rhaglenni cynhyrchiol a allai arwain at fuddion, mae risg y gallai gwasanaethau porth estynedig fynd yn anghynaladwy. Eglurwyd gellid rheoli'r risg drwy gynlluniau defnyddio lleol er mwyn ymrwymo'r cynghorau i lefel dderbyniol o ddefnydd y gellir ymdopi ag o a bydd y rhwydwaith yn tyfu mewn ymateb i'r galw. Pwysleisiwyd mai'r dull lliniaru allweddol yw hybu dwys ac adolygu cyfleoedd o fewn awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus cyn a tra ei fod mewn defnydd.
- **Mabwysiadu gan y sector breifat** – Cadarnhawyd os yw lefel yr ymrwymiad gan y sector breifat yn gyfyngedig, na fydd y buddion anuniongyrchol ehangach sy'n gysylltiedig ag arloesol, twf a chyflogaeth yn cael eu gwireddu. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gweithgareddau hybu yn lleol. Nodwyd bydd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn cydweithio â rhan-ddeiliaid sydd eisoes yn hybu Rhyngrwyd Pethau er mwyn codi ymwybyddiaeth a derbyn cyllid pellach er mwyn ymestyn yr ymgysylltu.

Ystyriwyd bod hyrwyddo'r rhwydwaith gyda'r sector breifat yn allweddol i lwyddiant y cynllun o fewn y rhanbarth. Gobeithiwyd bydd rhaglen hyrwyddo bwrpasol yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod y risg hon yn cael ei gyfarch yn ychwanegol i weithgareddau hybu. Manylwyd ar y cynllun hyrwyddo rhagweladwy gan nodi ei fod yn cynnwys gweithdai, seminarau a rhannu gwybodaeth ar y we. Pwysleisiwyd bydd hyn yn gyfrifoldeb yr awdurdodau lleol a'r rheolwr prosiect.

Adroddwyd y gobeithir bydd Cynlluniau Defnyddio Lleol yn cael eu cymeradwyo o fewn yr awdurdodau lleol erbyn Mawrth 2025 gyda gweithgareddau hybu galw cyntaf yn cael eu cynnal yng ngwanwyn 2025. Cadarnhawyd gwariant y prosiect i fod oddeutu £1.1m.

## 9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitem 10 ac Eitem 11 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus, fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud â'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

## 10. ACHOS FUSNES AMLINELLOL CYDNERTH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel.

**PENDERFYNIAD**

1. **Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Cydnerth sy'n ddarostyngedig i Menter Môn Morlais Cyf yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad, fel y disgrifir yn Adran 7.1, ac yn gofyn i Achos Busnes Llawn gael ei pharatoi i'r Bwrdd ei ystyried.**
2. **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya, i gytuno ar delerau drafft yn unol â'r Adroddiad fel sail ar gyfer y trefniadau cyllido terfynol ar gyfer y prosiect a fydd yn sail i'r cyllid gael ei gytuno gan y Bwrdd yn y cam Achos Busnes Llawn.**
3. **Nodi fod y model ariannu arfaethedig ar gyfer y prosiect yn 100% benthyciad masnachol yn ddarostyngedig i gadarnhad o'r sefyllfa rheoli cymhorthdal wrth gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn, ac yn cymeradwyo mewn egwyddor fod y llog o'r benthyciad, unwaith y bydd cost taliadau benthyca ar gyfer yr elfen benthyciad wedi'i dalu, yn cael ei ddyrannu i gronfa i'w defnyddio i ariannu'r Swyddfa Rheoli Portffolion yn y blynyddoedd i ddod.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Cydnerth.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

**11. CANOLFAN BIOTECHNOLEG AMGYLCHEDDOL – ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Rhaglen y Cynllun Twf.

**PENDERFYNIAD**

1. **Cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer prosiect Canolfan Biodechnoleg Amgylcheddol ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolion, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, i gytuno ac ymrwymo i gytundeb ariannu gyda Phrifysgol Bangor er mwyn cyflawni'r prosiect, yn ddarostyngedig i Brifysgol Bangor yn rhoi sylw i'r materion sy'n weddill fel nodir yn Adran 7 o'r Adroddiad ac yn sicrhau'r holl gymeradwyaeth mewnol angenrheidiol ar gyfer y prosiect.**
2. **Nodi bydd dau gam caffael pellach ar gyfer cyflawni'r prosiect a dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gymeradwyo manylion caffael a dyfarnu cyn rhyddhau cyllid ar gyfer y camau hyn.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Achos Cyfiawnhad Busnes Llawn ar gyfer Prosiect Canolfan Biodechnoleg Amgylcheddol.

Mae Prifysgol Bangor wedi cwblhau'r gwaith caffael ar gyfer y prosiect gyda prynu offer wedi'i gynllunio. Bydd yr Achos Cyfiawnhad Busnes yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd am benderfyniad Buddsoddi terfynol. Oherwydd natur a gwerth y prosiect, yn unol â chanllawiau 'Better Business Case' cyflwynir Achos Cyfiawnhad Busnes sy'n gofyn am gymeradwyaeth sengl gan y Bwrdd yn unig.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30yb a daeth i ben am 10:40yb.

______________________________

Cadeirydd

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**20/09/2024**

**Teitl:** Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2024/25 - Adolygiad Diwedd Awst 2024.

**Awdur:** Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya (Swyddog Cyllid Statudol)

Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu manylion y gwariant a'r incwm refeniw gwirioneddol hyd at ddiwedd Awst 2024, i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol. Mae hefyd yn dangos y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig fel ag ar ddiwedd Awst 2024.

1.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant a ragamcanir yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

## 2. Y Penderfyniad a Geisir

**Gofynnir i'r Bwrdd:-**

**2.1 Nodi a derbyn adolygiad refeniw diwedd Awst 2024 y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 1).**

**2.2 Nodi a derbyn diweddariad cronfeydd wrth gefn y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2).**

**2.3 Cytuno ar broffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 3).**

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Nodi tanwariant a ragwelir o £5,966 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2024/25.

3.2 Nodi llithriad pellach ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £14.28m yn 2024/25 o'i gymharu â chyllideb gymeradwy o £24.67m ar gyfer y flwyddyn.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2024, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais ei gyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024/25.

4.2 Parheir i fonitro ac adolygu'r gyllideb drwy gydol blwyddyn ariannol 2024/25, a chyflwynir adroddiad chwarter tri i'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais ym mis Ionawr 2025.

**<u>Refeniw</u>**

**5. Gwariant ac incwm yn 2024/25**

5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol hyd at ddiwedd Awst 2024, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.2 Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 yn danwariant o £5,966.

<u>Swyddfa Rheoli Portffolio</u>

5.3 Mae'r gorwariant net o £9,368 a ragwelir ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio yn bennaf oherwydd y gorwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau. Mae'r gorwariant oherwydd costau system TG a bydd angen adolygu'r pennawd cyllideb hwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

<u>Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol</u>

5.4 Bydd y tanwariant net o £20,000 ar gefnogaeth gwasanaethau cyllid Cyngor Gwynedd yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gorwariant cefnogaeth gyllidol allanol ar y pennawd Prosiectau.

Cyd-bwyllgor

5.5 Disgwylir i'r gwariant o dan bennawd y Cyd-bwyllgor fod o fewn y gyllideb ar gyfer 2024/25.

Prosiectau

5.6 Mae'r pennawd Prosiectau'n dangos gorwariant net o £70,000 ac mae hyn yn bennaf oherwydd costau cymorth cyfreithiol allanol ar nifer o brosiectau yn y rhaglen gyfalaf.

Cynlluniau Grant

5.7 Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn cynnwys prosiectau Ynni Ardal Leol a Cronfa Ffyniant Gyffredin a ariennir gan grant. Mae estyniad tan fis Mawrth 2025 wedi'i dderbyn yn ddiweddar ar y grant Ynni Ardal Leol, felly er ei fod yn dangos fel gorwariant, bydd yn cael ei ariannu gan y gwarged grant a ddangosir yn y rhan incwm.

Cyfraniadau Ariannu

5.8 Mae'r prif ffrydiau incwm ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, dyraniad refeniw Grant Bargen Twf Gogledd Cymru, grant Ynni Llywodraeth Cymru Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (secondiad staff), Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG a'r gronfa wrth gefn.

Cronfeydd Wrth Gefn y Bwrdd Uchelgais

5.9 Mae Atodiad 2 yn dangos amcangyfrif o’r balansau cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2025.

5.10 Cyfanswm balans y gronfa wrth gefn gyffredinol a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2024 oedd £277,927, ac mae £66,950 o'r gronfa wrth gefn hon wedi'i ddyrannu yng nghyllideb 2024/25 i roi amcangyfrif o falans o £210,977 ar 31 Mawrth 2025.

5.11 Balans y gronfa wrth gefn prosiectau ar 31 Mawrth 2025 yw £152,300.

5.12 Mae’r gronfa llog wedi ei neilltuo i ariannu y cost benthyca yn y dyfodol. Ei amcan balans ar 31 Mawrth 2025 yw £7,233,483, ac mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o £2.5m o log ar falansau a dderbynnir yn ystod y flwyddyn.

**Cyfalaf**

5.13 Mae Atodiad 3 yn dangos y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2024.

5.14 Mae gostyngiad net o £10.39m yn y gwariant disgwyliedig ar gyfer 2024/25 ac mae hyn oherwydd llithriad ar bedwar prosiect (Ynni Lleol Blaengar, Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy, Porth Caergybi a chyn Ysbyty Gogledd Cymru).  Mae'r gwariant ar brosiectau'r Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol a'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth (TTN) wedi symud i 2024/25 i gyd-fynd â'r proffil cyfalaf yn yr achos busnes llawn a'r achos cyfiawnhau busnes.

5.15 Bu oedi o ddwy flynedd hefyd ar y proffil gwariant ar gyfer prosiectau Stiwdio Kinmel (o 2026/27 i 2028/29) a Hwb Economi Wledig Glynllifon (o 2025/26 i 2027/28).

5.16 Yn seiliedig ar y proffil gwariant diwygiedig hwn, mae grant y fargen dwf o £56.9m a dderbyniwyd eisoes yn ddigonol i ariannu'r rhaglen gyfalaf tan ddiwedd 2025/26.  Ni dderbyniodd Uchelgais Gogledd Cymru daliad grant y fargen dwf yn 2023/24, ac ar hyn o bryd maent yn aros am gadarnhad gan y Llywodraeth ar y proffil ariannu grant diwygiedig ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill.

**6. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

6.1 Cyflwynwyd atodiadau'r adroddiad hwn i'r Bwrdd Portffolio ar 6 Medi 2024.

**7. Atodiadau**

Atodiad 1 - Cyllideb Refeniw y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 - Adolygiad Diwedd Awst 2024

Atodiad 2 – Sefyllfa cronfeydd y BUEGC

Atodiad 3 - Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 - Adolygiad Diwedd Awst 2024

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

Cyllideb Refeniw y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 - Adolygiad diwedd Awst 2024

Atodiad 1

| Gwariant | Cyllideb Sylfaenol (£) | Trosglwyddiadau unwaith ac am byth (£) | Cyfanswm Cyllideb (£) | Awst 2024 (£) | Ymrwymiadau Awst 2024 (£) | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol (£) | Gor / (Tan)wariant (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 1,395,940 | 0 | 1,395,940 | 544,571 | 0 | 1,399,308 | 3,368 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 3,000 | 0 | 3,000 | 2,185 | 0 | 3,000 | 0 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 11,000 | 0 | 11,000 | 1,848 | 0 | 8,000 | (3,000) |
| Hyfforddiant | 11,000 | 0 | 11,000 | 5,992 | 150 | 11,000 | 0 |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 10,000 | 0 | 10,000 | 47 | 0 | 10,000 | 0 |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 25,000 | 0 | 25,000 | 13,365 | 4,990 | 25,000 | 0 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 11,000 | 0 | 11,000 | 13,010 | 837 | 20,000 | 9,000 |
| Eiddo | 36,000 | 0 | 36,000 | 0 | 0 | 36,000 | 0 |
| Datblygu Portffolio a Rhaglenni | 30,000 | 0 | 30,000 | 17,000 | | 30,000 | 0 |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio** | **1,532,940** | **0** | **1,532,940** | **598,018** | **5,977** | **1,542,308** | **9,368** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 110,860 | 0 | 110,860 | 0 | 0 | 90,860 | (20,000) |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 29,690 | 0 | 29,690 | 0 | 0 | 29,690 | 0 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 45,700 | 0 | 45,700 | 13,080 | 0 | 45,700 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 21,920 | 0 | 21,920 | 0 | 0 | 21,920 | 0 |
| Yswiriant | 4,130 | 0 | 4,130 | 0 | 0 | 4,130 | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **212,300** | **0** | **212,300** | **13,080** | **0** | **192,300** | **(20,000)** |
| **Cyd-bwyllgor** | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 | 0 | 18,000 | 0 | 0 | 18,000 | 0 |
| Ffioedd Cyllidol Allanol | 10,000 | 0 | 10,000 | 1,545 | 0 | 10,000 | 0 |
| Ffi Archwilio Allanol | 27,520 | 0 | 27,520 | 0 | 0 | 27,520 | 0 |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 15,000 | 0 | 15,000 | 0 | 0 | 15,000 | 0 |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **70,520** | **0** | **70,520** | **1,545** | **0** | **70,520** | **0** |
| **Prosiectau** | | | | | | | |
| Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau | 200,000 | 0 | 200,000 | 8,500 | 75,496 | 165,000 | (35,000) |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 100,000 | 0 | 100,000 | 66,556 | 10,787 | 200,000 | 100,000 |
| Cefnogaeth Cyllidol Allanol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,000 | 20,000 |
| Cefnogaeth Caffael Allanol | 35,000 | 0 | 35,000 | 0 | 0 | 20,000 | (15,000) |
| Sicrwydd | 40,000 | 0 | 40,000 | 8,910 | 0 | 40,000 | 0 |
| **Cyfanswm Prosiectau** | **375,000** | **0** | **375,000** | **83,966** | **86,283** | **445,000** | **70,000** |
| **Cynlluniau grant** | | | | | | | |
| Gwariant gweithwyr - Prosiect Ynni Ardal Leol | 99,420 | 0 | 99,420 | 56,498 | 0 | 144,840 | 45,420 |
| Cynlluniau Ynni Ardal Lleol | 0 | 0 | 0 | 3,799 | 32,982 | 36,781 | 36,781 |
| Gwariant gweithwyr - Cronfa Ffyniant Gyffredin | 122,640 | 0 | 122,640 | 64,037 | 0 | 119,456 | (3,184) |
| Cynlluniau Ffyniant Gyffredin | 550,500 | 0 | 550,500 | 85,954 | 157,137 | 550,500 | 0 |
| Ymchwil Statws Bwyd Amaeth | 0 | 0 | 0 | 5,783 | 0 | 5,783 | 5,783 |
| **Cyfanswm Cynlluniau grantiau** | **772,560** | **0** | **772,560** | **216,071** | **190,119** | **857,360** | **84,800** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,963,320** | **0** | **2,963,320** | **912,680** | **282,379** | **3,107,488** | **144,168** |

**Cyllideb Refeniw y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 - Adolygiad diwedd Awst 2024**

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau unwaith ac am byth | Cyfanswm Cyllideb | Awst 2024 | Ymrwymiadau Awst 2024 | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol | Gor / (Tan)wariant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Cyfraniadau Ariannu** | | | | | | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (28,950) | 0 | (28,950) | (28,950) | 0 | (28,950) | 0 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | (28,950) | 0 | (28,950) | (28,950) | 0 | (28,950) | 0 |
| Coleg Cambria | (28,950) | 0 | (28,950) | (28,950) | 0 | (28,950) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (28,950) | 0 | (28,950) | (28,950) | 0 | (28,950) | 0 |
| **Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| **Eraill** | | | | | | | |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru | (1,100,000) | 0 | (1,100,000) | 0 | 0 | (1,100,000) | 0 |
| Grant Ynni Llywodraeth Cymru | (106,180) | 0 | (106,180) | 0 | 0 | (184,994) | (78,814) |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (70,396) | (70,396) |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG | (973,600) | 0 | (973,600) | (97,336) | 0 | (973,600) | 0 |
| Grant Llywodraeth Cymru - Lleoliad Myfyrwyr | (13,510) | 0 | (13,510) | 0 | 0 | (8,651) | 4,859 |
| Cyfraniadau Ymchwil Statws Bwyd Amaeth | 0 | 0 | 0 | (1,967) | 0 | (5,783) | (5,783) |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | (66,950) | 0 | (66,950) | 0 | 0 | (66,950) | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,963,320)** | **0** | **(2,963,320)** | **(802,383)** | **0** | **(3,113,454)** | **(150,134)** |
| **Gor / (Tan) wariant Net** | **0** | **0** | **0** | **110,297** | **282,379** | **(5,966)** | **(5,966)** |

**Sefyllfa cronfeydd y BUEGC** **Atodiad 2**

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2024** | **(277,927)** |
| Dyraniad Cyllideb 2024/25 | 66,950 |
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2025** | **(210,977)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2024** | **(152,300)** |
| Defnydd yn 2024/25 | 0 |
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2025** | **(152,300)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2024** | **(4,733,483)** |
| Amcan llog ar falansau 2024/25 | (2,500,000) |
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2025** | **(7,233,483)** |

**Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 - Adolygiad diwedd Awst 2024** **Atodiad 3**

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) | 2027/28 (£m) | 2028/29 (£m) | 2029/30 (£m) | 2030/31 (£m) | 2031/32 (£m) | 2032/33 (£m) | 2033/34 (£m) | 2034/35 (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.37 | 0.81 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Digidol | Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.50 | 4.00 | 2.00 | 2.37 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Digidol | Campws Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.94 | 10.10 | 4.93 | 4.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Digidol | Cysylltu ychydig ganrannau olaf | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.32 | 1.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.17 |
| Ynni carbon isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.33 | 4.44 | 1.10 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Ynni carbon isel | Egni (Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel) | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 1.97 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Ynni carbon isel | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 | 2.50 | 5.00 | 5.70 | 5.00 | 0.00 | 19.70 |
| Ynni carbon isel | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.61 | 5.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| Ynni carbon isel | Ynni Lleol Blaengar | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.00 | 9.25 | 9.25 | 3.13 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| Ynni carbon isel | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy | The Circular Economy Ltd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.20 | 3.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.40 |
| Ynni carbon isel | Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.90 | 1.90 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 |
| Tir ac eiddo | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.64 | 17.00 | 9.83 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Warren Hall | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.38 | 7.39 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| Tir ac eiddo | Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.47 | 3.47 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Parc Bryn Cegin | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| Tir ac eiddo | Porth Gorllewinol, Wrecsam | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.48 | 4.48 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| Tir ac eiddo | Stiwdio Kinmel | Stage Fifty | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.40 | 3.40 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.80 |
| Tir ac eiddo | Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.79 | 2.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.79 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.71 | 0.25 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 0.75 | 6.52 | 4.28 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.55 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.20 | 4.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.14 | 1.28 | 0.01 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Anturiaethau Cyfrifol* | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.30 | 3.70 | 0.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.20 |
| 2.15% ar gyfer ariannu cyllideb refeniw y BUEGC | | | 0.22 | 0.28 | 0.56 | 1.10 | 1.15 | 0.82 | 0.30 | 0.15 | 0.15 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.07 | 0.05 | 5.15 |
| **Gwariant disgwyliedig erbyn 31/03** | | | **0.34** | **1.94** | **1.68** | **14.28** | **30.28** | **55.35** | **57.15** | **45.48** | **14.88** | **2.60** | **5.10** | **5.80** | **5.07** | **0.05** | **240.00** |
| **Cyllideb wedi ei chymeradwyo (Mawrth 2024)** | | | **0.34** | **1.94** | **1.05** | **24.67** | **58.68** | **68.53** | **44.81** | **19.71** | **1.65** | **2.60** | **5.10** | **5.80** | **5.07** | **0.05** | **240.00** |
| **Gwahaniaeth** | | | **0.00** | **0.00** | **0.63** | **(10.39)** | **(28.40)** | **(13.18)** | **12.34** | **25.77** | **13.23** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Cynllun Archwilio Manwl 2024

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4430A2024



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny’n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, phan fo hynny’n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 7 |
| Perthnasedd datganiadau ariannol | 8 |
| Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol | 9 |
| Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt | 10 |
| Amserlen archwilio datganiadau ariannol | 11 |
| Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig | 12 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 13 |
| Ffi a'r tîm archwilio | 14 |
| Ansawdd archwilio | 16 |
| Cefnogi chi | 17 |

# Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Archwilio Manwl hwn yn nodi fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae'n nodi'r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd allweddol eraill y canolbwyntir arnynt yn ystod 2024.

Mae hefyd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig fy nhîm archwilio.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

## Archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol imi gyflwyno adroddiad ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' a'r gwaith priodol o'u paratoi yn unol â gofynion cyfrifyddu. Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Cyd-bwyllgor), rwyf hefyd yn gyfrifol am ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon oddi wrth etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen).

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Nodir y lefelau pan fyddaf yn barnu camddatganiadau o'r fath i fod yn berthnasol yn ddiweddarach yn y cynllun hwn.

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Gwaith archwilio perfformiad

Mae'n rhaid imi fodloni fy hun bod y Cyd-bwyllgor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Gwnaf hyn drwy ymgymryd â rhaglen briodol o waith archwilio perfformiad bob blwyddyn.

Caiff fy rhaglen waith ei llywio gan faterion a risgiau penodol sy'n wynebu'r Cyngor a llywodraeth leol yn ehangach yng Nghymru. Rwyf hefyd wedi ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud neu y bwriedir iddo gael ei wneud gan gyrff adolygu allanol eraill a chan adrannau archwilio mewnol.

Cynhelir y rhan fwyaf o'm gwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI) sy'n sefydliad ambarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Sefydliad anllywodraethol yw ef sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig.

# Cipolwg ar eich archwiliad

**Bydd fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn canolbwyntio ar eich risgiau a meysydd pwyslais eraill**

Mae fy nghynllun archwilio wedi nodi'r risgiau canlynol:

Risg sylweddol i ddatganiadau ariannol
- Gwrth-wneud gan y Rheolwyr

Meysydd eraill y bydd y gwaith archwilio yn canolbwyntio arnynt
- Prisio rhwymedigaethau net cronfa bensiwn

**Bydd fy archwiliad o berfformiad yn cynnwys:**

- Gwaith lleol – Trefniadau Llywodraethu

# Perthnasedd datganiadau archwilio

## Perthnasedd £83,000

Fy nod yw nodi a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai achosi i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain fel arall.

Cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio:

- gwariant gros 2023-24 sef £4.159 miliwn
- Canran perthnasedd o 2%

Rwyf yn adrodd unrhyw gamddatganiad sy'n fwy na lefel ddibwys (a bennir ar berthnasedd o 5%) i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Y lefel ydi £4,159 ar gyfer 2023-24.

## Meysydd o ddiddordeb penodol

Ceir rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

- Tal uwch swyddogion £1,000
- Datgeliadau partïon cysylltiedig £10,000 ar gyfer unigolion; £83,000 ar gyfer cyrff eraill.

# Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol

Nodir risgiau sylweddol o gamddatganiad perthnasol y mae'r asesiad o risg cynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg cynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio eraill.  Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni roi mwy o sylw ar y risgiau sylweddol hyn.

**Arddangosyn 1: risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol**

| Risg sylweddol | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol. |

# Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt

Cyflwynaf risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a nodwyd. Er na phenderfynwyd eu bod yn risgiau sylweddol fel yr uchod, hoffwn eu dwyn i'ch sylw.

**Arddangosyn 2: meysydd eraill y canolbwyntir arnynt**

| Risg archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Prisio rhwymedigaeth net cronfa bensiwn**<br><br>Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) a rhwymedigaeth cronfa bensiwn fel y'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol.<br><br>Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn ddarostyngedig i gryn dipyn o ansicrwydd gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y tybiaethau a ddefnyddir i'w gyfrifo.<br><br>Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog, yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth hefyd. Ar 31 Mawrth 2024, er enghraifft, roedd y rhwymedigaeth mewn gwirionedd yn warged, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y rheolwyr i'w harbenigwr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;<br>• asesu cymhwystra, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;<br>• asesu cywirdeb a chyflawnder y wybodaeth a roddwyd gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;<br>• profi cywirdeb rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn a datgeliadau yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari;<br>• asesu pa mor rhesymol yw'r tybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy edrych ar adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sydd eu hangen. |

# Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Nodaf isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon ac allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 3: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig**

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio Manwl 2024 | Gorffennaf 2024 | Awst 2024 |
| Gwaith archwilio datganiadau ariannol:<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf - Awst 2024 | Tachwedd 2024 |

# Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig

Nodaf isod fanylion am fy ngwaith archwilio perfformiad a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 4: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig**

| | | |
|---|---|---|
| **Gwaith prosiect lleol – Trefniadau Llywodraethu** | Adolygiad o gydymffurfiaeth y Cyd-bwyllgor â'i Drefniadau Llywodraethu | Caiff yr amserlenni ar gyfer y prosiect eu trafod â'r Cyngor a'u nodi ym mriff penodol y prosiect a gaiff ei lunio ar gyfer pob archwiliad. |

## Swyddogaethau archwilio statudol

Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad;
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau a gwrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

# Ffi a'r tîm archwilio

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddwyd ein Cynllun Ffioedd ar gyfer blwyddyn 2024-25 fel y'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae cynnydd cyfartalog o 6.4% yn fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2024-25 o ganlyniad i bwysau chwyddiant na ellir ei osgoi a'r angen parhaus i fuddsoddi mewn ansawdd archwilio.

Rwyf yn amcangyfrif mai cyfanswm eich ffi archwilio fydd **£26,754.**

Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyd-Bwyllgor yn gyntaf.

**Mae ein ffi archwilio ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:**

- Mae'r canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Ni nodir unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod yr archwiliad, heblaw yr hyn a grynhoir yn y cynllun hwn.

**Arddangosyn 5: dadansoddiad o'r ffi archwilio**

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig ar gyfer 2024 (£)[1] | Ffi wirioneddol ar gyfer 2023 (£) |
|---|---:|---:|
| Archwiliad o'r datganiadau ariannol[2] | 15,023 | 14,119 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 11,731 | 11,025 |
| **Cyfanswm y ffi** | **26,754** | **25,114** |

[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

[2] Yn daladwy o fis Tachwedd 2023 hyd fis Hydref 2024.

[3] Yn daladwy o fis Ebrill 2024 hyd fis Mawrth 2025.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio lleol**

| Enw | Rôl | Manylion cyswllt |
|---|---|---|
| Matthew Edwards | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | Matthew.Edwards@audit.wales |
| Gary Emery | Cyfarwyddwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | Gary.Emery@audit.wales |
| Yvonne Thomas | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | Yvonne.thomas@audit.wales |
| Carwyn Rees | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | Carwyn.Rees@audit.wales |
| Siwan Glyn | Uwch Archwiliwr (Archwilio Ariannol) | Siwan.glyn@audit.wales |
| Alan Hughes | Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad) | Alan.Hughes@audit.wales |

Ceir rhai bygythiadau i annibyniaeth y mae angen i mi eu dwyn i'ch sylw mewn perthynas â'r Rheolwr Archwilio sy'n gydnabod i aelod o Grŵp Gweithredol y Cyd-bwyllgor. Nid yw gwaith y Rheolwr Archwilio'n ei gwneud yn ofynnol cael unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r aelod y tu allan i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor, a bydd camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn cael ei reoli. Ac eithrio hyn, gallaf gadarnhau bod holl aelodau eraill fy nhîm yn annibynnol ar y Cyd-bwyllgor.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt.  Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn.  Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Gwnawn ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan yr Adran Sicrhau Ansawdd* ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel cyswllt ar ansawdd archwilio i'n Bwrdd.  Am fwy o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2023.



**Ein Pobl**

Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwylio ac adolygu



**Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio**

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



**Sicrwydd annibynnol**

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw'r Adran Sicrhau Ansawdd.

# Cefnogi chi

Mae Archwilio Cymru wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau i helpu i graffu ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru ac i gefnogi'r cyrff hynny i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

## Gallwch ddod o hyd i'r canlynol ar ein gwefan:

| | |
|---|---|
| | ein gwaith Arfer Da, lle rydym yn rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli. |
| | ein cylchlythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn rheolaidd am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arferion da a digwyddiadau. |
| | ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu'r gwaith a gwblhawyd gennym wrth archwilio cyrff cyhoeddus. |
| | gwybodaeth am ein blaenraglen o waith archwilio perfformiad 2023-2026 a gaiff ei llywio gan weithgarwch ymgysylltu rhanddeiliaid a'n darlun o ddadansoddi gwasanaethau cyhoeddus. |
| | offer data a ffeithluniau amrywiol i'ch helpu i ddeall tueddiadau o ran gwariant cyhoeddus yn well, gan gynnwys amrywiaeth o wybodaeth arall am y gwaith o graffu ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. |

Gallwch ddod o hyd i fwy am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 ac Ein Strategaeth 2022-27.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**20 MEDI 2024**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | *Di-wifr Uwch - Achos Busnes Amlinellol* |
| **AWDUR:** | Stuart Whitfield - Rheolwr y Rhaglen Ddigidol |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno Achos Busnes Amlinellol Di-wifr Uwch i'w ystyried gan y Bwrdd.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraethau Cymru a'r DU o'r broses sicrwydd yr ymgymerwyd â hi, a bod y Swyddfa Rheoli Portffolio yn rhoi sylw i'r materion sy'n parhau a nodir yn Adran 7 yr adroddiad, ac yn gwneud cais bod Achos Busnes Llawn yn cael ei baratoi er mwyn i'r Bwrdd ei ystyried.

2.2. Bod y Bwrdd yn dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, gymeradwyaeth derfynol o'r fanyleb caffael a'r meini prawf gwerth cymdeithasol cyn i ariannwr y prosiect ddechrau caffael.

2.3. Bod y Bwrdd yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya, i gytuno ar delerau drafft yn unol â'r adroddiad hwn i'w cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais fel sail ar gyfer y trefniadau ariannu terfynol ar gyfer y prosiect a fydd yn ffurfio sail y Llythyr Cynnig Grant a gaiff ei gytuno gan y Bwrdd ar y cam Achos Busnes Llawn.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Achos Busnes Amlinellol y Prosiect Di-wifr Uwch.

3.2. Fel prosiect sy'n cael ei gyflawni gan Uchelgais Gogledd Cymru, mae angen cymeradwyaeth gan y Bwrdd i sefydlu'r fframweithiau fydd yn cyflawni'r prosiect.

**4. CEFNDIR A PHROSES**

4.1. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflawni buddsoddiad trawsffurfiol o £1 biliwn yn economi'r Gogledd. Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a

gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol.

4.2. Yn unol â chytundeb terfynol y Cynllun Twf, caiff achosion busnes eu datblygu ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf, yn unol â'r canllawiau 'Better Business Case' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EF. Bydd pob achos busnes yn cynnwys pum achos a fydd yn rhoi sylw i gwestiynau allweddol a dylid eu cefnogi gan weithdai.

4.3. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gweithredu fel y corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yw arianwyr y Cynllun Twf sy'n cadw rôl wrth gymeradwyo'r broses sicrwydd y mae pob prosiect wedi ymgymryd â hi. Bydd y broses sicrwydd y bydd y prosiectau'n ymgymryd â hi wedi'i chynnwys yn yr holl adroddiadau i'w hystyried.

4.4. Datblygwyd yr Achos Busnes Amlinellol Di-Wifr Uwch gan y Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol â'r canllawiau 'Better Business Case'. Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn ymdrin â'r cam cynllunio prosiect. Pwrpas y cam hwn yw adnabod yr opsiwn sy'n gwneud y mwyaf o werth cyhoeddus yn dilyn gwerthusiad manwl; ac amlinellu'r Cynllun posib gan hefyd gadarnhau fforddiadwyedd a rhoi'r trefniadau rheoli yn eu lle er mwyn cyflawni'r prosiect yn llwyddiannus.

4.5. Mae cymeradwyaeth yr Achos Fusnes Amlinellol gan y Bwrdd Portffolio yn cyflwyno cefnogaeth aelodau ar gyfer cyflawni'r prosiect fel yr amlinellir yn yr Achos Busnes a bydd yn cael ei ystyried fel cynghorol gan y Bwrdd Uchelgais wrth iddo wneud ei benderfyniad.

4.6. Byddai'r Bwrdd Uchelgais yn cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol yn darparu'r gymeradwyaeth angenrheidiol i'r prosiect symud ymlaen i'r cam nesaf, a fyddai, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r broses sicrwydd, yn gweld y broses gaffael yn cael ei chwblhau ac Achos Busnes Llawn (FBC) yn cael ei ddatblygu am benderfyniad buddsoddi terfynol gan y Bwrdd Uchelgais.

4.7. Pe byddai'r Bwrdd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol, gall wrthod yr achos busnes yn llwyr neu ofyn am ragor o wybodaeth i'w chynnwys mewn fersiwn diwygiedig o'r achos busnes i'w ystyried.

## 5. CYFLWYNIAD I'R PROSIECT DI-WIFR UWCH

5.1. Mae'r prosiect Di-wifr Uwch yn ffurfio rhan o'r Rhaglen Cysylltedd Digidol ac yn rhan o'r prosiect Campysau Cysylltiedig, sydd hefyd yn cynnwys y prosiect LPWAN (cymeradwywyd Achos Cyfiawnhad Busnes ym mis Gorffennaf 2024).

5.2. Mae'r prosiect yn anelu at gefnogi sefydliadau sector preifat a sector cyhoeddus yn y rhanbarth i fabwysiadu'r technolegau di-wifr uwch diweddaraf i gyflawni buddion sy'n gysylltiedig â gwell cynhyrchedd, effeithiolrwydd busnes, arloesi, cystadleuaeth a thwf. Mae'r amrediad o dechnolegau yn y sgôp yn gyson â Strategaeth Isadeiledd Di-Wifr y DU (2023) ac mae'n amrywiol, gan amrywio o 5G a'r safonau diweddaraf o Wi-fi, i dechnolegau rhwydwaith ardal

eang pŵer isel megis LoRaWAN a NB-IoT. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y technolegau hyn yn y Strategaeth Ddigidol i Gymru (2021). Cyfeirir drwyddi draw at y pwysigrwydd o sicrhau bod y DU wedi'i arfogi â'r seilwaith digidol mwyaf effeithiol ac ansawdd uchel yn strategaethau'r DU a Chymru, gan gynnwys Strategaeth Ddigidol y DU, y Strategaeth Seilwaith Cenedlaethol[1], Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Strategaeth Arloesi Cymru.

5.3. Mae Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yn disgrifio, 'Rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon.' Mae'r Weledigaeth yn nodi pwysigrwydd datblygu seilwaith ddigidol effeithiol ledled y rhanbarth i gefnogi twf economaidd, creu swyddi ac arloesedd ehangach ar draws sectorau.

5.4. Mae hyrwyddo mabwysiadu technolegau Di-wifr Uwch yn amcan gyfredol gan Llywodraeth y DU, gyda rhaglenni dilynol mewn blynyddoedd diweddar yn cael eu cyflwyno i yrru ymwybyddiaeth a datblygu marchnadoedd yn yr ardal hon. Yn fwyaf diweddar, mae Rhaglen Rhanbarthau Arloesi 5G (Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg), yn cefnogi 10 ardal o'r DU i hyrwyddo mabwysiadu ar draws amrediad eang o raglenni a sectorau. Mae'r Rhaglen yn anelu at yrru ceisiadau arloesol wedi'u pweru gan 5G o'r cysyniad i'r cam o fabwysiadu yn eang. Bydd y rhanbarthau arloesi yn arddangos ac yn mabwysiadu 5G ac achosion eraill o ddefnyddio di-wifr uwch ar draws sectorau allweddol o'r economi.

5.5. Mae prosiect Di-wifr Uwch y Cynllun Twf yn ceisio cyflawni sgôp tebyg o fuddsoddiad yn y Rhaglen DU presennol gyda ffocws ar Amcanion Gwario'r Portffolio o greu swyddi, buddsoddi mewnol a thwf economaidd. Mae sawl Awdurdod Cyfunol, Dinas a Chynllluniau Twf ledled y DU yn cefnogi mabwysiadu technolegau di-wifr uwch yn eu hardaloedd, gan gynnwys Bae Abertawe, Tay Cities, West Midlands Combined Authority, Greater Manchester Combined Authority, Glasgow City Region a Belfast City Region. Mae ganddynt amcanion economaidd cyffredin ac maent yn arddangos dull rhanbarthol cyson tuag at ymyrraeth.

5.6. Ar ôl datblygu'r Achos Amlinellol Strategol cychwynnol, arfarnu opsiynau a gweithdai, bu i'r prosiect Campysau Cysylltiedig adnabod cynllun grant fel y mecanwaith mwyaf priodol i gyflawni buddsoddiad Cynllun Twf ar draws y rhanbarth i gefnogi mabwysiadu technolegau di-wifr uwch. Bwriedir i'r cynllun fod yn hygyrch i amrediad eang o ymgeiswyr fydd yn gallu arddangos defnydd o'r technolegau a all gyflawni amcanion gwario'r Portffolio a'r Rhaglen a'r buddion sy'n gysylltiedig â gwell cynhyrchedd, arloesedd, cynaliadwyedd a thwf.

5.7. Mae lefel cymharol isel yr ymwybyddiaeth o'r amrediad eang o dechnolegau mewn sgôp ymysg sefydliadau yn genedlaethol yn cael ei gydnabod ynghyd â pham y mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi mewn gweithgareddau hybu galw. Yn y gogledd, mae Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn darparu amrediad o gyfleoedd hyfforddi sy'n gysylltiedig ag uwchsgilio ar y defnydd o dechnolegau allweddol gyda sefydliadau megis AMRC a Choleg Cambria yn darparu cefnogaeth benodol i fusnesau sy'n gobeithio arloesi mewn maes lle mae galw cynyddol amdano ar draws sawl sector, yn benodol ac yn cynnwys gweithgynhyrchu a logisteg, er enghraifft.

[1] https://www.gov.uk/government/publications/uk-wireless-infrastructure-strategy/uk-wireless-infrastructure-strategy

5.8. I hyrwyddo mabwysiadu technolegau di-wifr uwch yn fwy eang yn y rhanbarth, bydd y prosiect yn darparu cyllid i leihau'r risg fasnachol i sefydliadau wrth iddynt fabwysiadu systemau a phrosesau newydd. Yn 2024, mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi bod yn cyflwyno prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar draws Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn i gefnogi busnesau bychan a chanolig eu maint i ystyried eu hopsiynau ar gyfer mabwysiadu technolegau di-wifr uwch. Mae'r gwaith hwn i fod i ddod i ben ar ddiwedd mis Rhagfyr 2024 ac yn targedu 20 busnes SME i ddarparu argymhellion iddynt ar ôl ymgynghori arbenigol. Mae'r amrediad o sectorau sydd wedi ymgysylltu â'r prosiect yn amrywiol ac yn arddangos sgôp y diwydiannau y mae disgwyl iddynt fod yn fuddiolwyr y prosiect Di-wifr Uwch, yn cynnwys amaethyddiaeth, twristiaeth, iechyd, gweithgynhyrchu a manwerthu.

5.9. Bydd y prosiect yn ymwneud â dyluniad cychwynnol cynllun grant fydd yn cael ei deilwra i sefydliadau yn y rhanbarth ar draws yr economi, gan gynnwys y sector cyhoeddus a bydd yn ddigon hyblyg i gefnogi busnesau o rai maint SME i sefydliadau mwy. Disgwylir y bydd dyfarniadau grant yn amrywio o fuddsoddiad cymharol isel ei werth (oddeutu <£50k), i fuddsoddiadau mwy a mwy strategol o £1m+), gyda meini prawf cymhwyster y cynllun yn cael eu hysbysu gan gynlluniau tebyg blaenorol a chyfredol ledled y DU sy'n cefnogi amcanion tebyg. Er y bydd y prosiect yn blaenoriaethu buddsoddiad strategol, mae hefyd gofyniad i fuddion y prosiect gyrraedd pob rhan o'r rhanbarth a'r economi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle y gallai tipyn llai o sefydliadau mwy fodoli. Felly, bydd y cynllun grant yn cael ei strwythuro fel bod modd ymdopi ag ef, tra'n targedu'r effaith a hyrwyddo arloesedd mewn sefydliadau bach a mawr.

5.10. Wrth ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol, trafodwyd tri cysyniad gwerth uchel (£2m+) gyda rhan-ddeiliaid a chyflenwyr yn y rhanbarth sy'n ymwneud â buddsoddiad strategol fyddai'n fuddiol i grŵp ehangach o fusnesau. Felly, mae'n glir bod galw yn y tymor byr am gymorth cyllidol i yrru mabwysiadu technolegau di-wifr uwch. Bydd angen gweithgarwch parhaus i hyrwyddo'r cynllun a buddion y buddsoddiad drwy gydol y prosiect i sicrhau bod y galw am fuddsoddiad y Cynllun Twf yn cael ei gynnal a bod modd cyflawni'r buddion. Mae enghreifftiau o brosiectau strategol y gellir eu disgwyl yn cynnwys rhwydweithiau preifat 5G ehangach i gefnogi defnyddwyr corfforaethol sengl, megis sefydliadau mawr sy'n gweithredu ar draws safle eang, gan gynnwys nifer o adeiladau, ynghyd â rhwydweithiau sy'n gwasanaethu sawl busnes unigol wedi'i leoli ar draws safle sengl (e.e. parciau busnes). Gallai ceisiadau gyda gwerth cyfalaf is gynnwys buddsoddiadau mewn adeiladau i wella cysylltedd i bersonél neu wella gweithrediad peiriant i gyfathrebu peiriant, megis rheoli a monitro offer cynhyrchu. Mae'r amrediad o achosion defnyddio yn cael ei arddangos gan y prosiectau sy'n cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan Raglen Rhanbarthau Arloesi'r DU[2], yn cynnwys gweithrediadau porthladd, tai, agritech, twristiaeth ac iechyd.

5.11. Ar ôl dylunio cynllun grant bydd y prosiect yn cael ei lansio gyda'r rheolaeth prosiect, gweinyddiaeth, a'r capasiti hybu galw yn cael eu recriwtio gan y Swyddfa Rheoli Portffolio i weithio o fewn y Rhaglen Cysylltedd Ddigidol am hyd y prosiect. I gefnogi costau refeniw, bydd y cynllun grant yn cynnwys gofyniad i ymgeiswyr llwyddiannus gyfrannu at gostau gweinyddol y cynllun fel canran o'r grant cyffredinol sy'n cael ei geisio. Bydd y raddfa hon yn cael ei chadarnhau yn ystod y cam o ddylunio'r cynllun a bydd yn cael ei osod i fod yn fforddiadwy tra'n

[2] Rhanbarthau Arloesi 5G: rhanbarthau llwyddiannus - GOV.UK (www.gov.uk)

darparu digon o incwm i'r prosiect gynnal gweithgareddau dros gyfnod tair blynedd y prosiect. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o gyflawni, disgwylir y bydd angen i adnoddau'r Swyddfa Rheoli Portffolio gwrdd â chostau refeniw cyn y derbynnir incwm o geisiadau, fodd bynnag, byddai hwn yn cael ei ddychwelyd wrth i'r cynllun fwrw yn ei flaen. Disgwylir i'r cynllun gael ei redeg mewn cyfnodau (*tranches*) ar draws pob blwyddyn, gyda cheisiadau yn cael eu cymeradwyo ar ddiwedd pob un. Bydd rhai meini prawf yn cael eu hadolygu bob hyn a hyn i sicrhau bod mynegiannau o ddiddordeb priodol yn cael eu denu ac mae amcanion gwario'r prosiect yn parhau i gael eu cwrdd.

5.12. Yn y cam Achos Busnes Amlinellol, mae'r prosiect yn anelu at sicrhau cyfradd gyfartalog o 50% o gyllid wedi'i drosoli gan ymgeiswyr, fodd bynnag, mae disgwyl i hyn amrywio gyda cheisiadau gyda chyfraddau ymyrraeth is o bosib wedi'u cymhwyso i geisiadau gwerth cyfalaf uwch a chyfraddau ymyrraeth uwch i ddyfarniadau cyfalaf gwerth is / sefydliadau llai ac/neu'r rhai sy'n darparu budd cymdeithasol ehangach, er enghraifft, lle mae grantiau yn cefnogi sefydliadau sector cyhoeddus. Mae cyfanswm y buddsoddiad cyfalaf ychwanegol a sicrheir gan ymgeiswyr ar y cam hwn yn cael ei fodelu i fod yn debyg i'r buddsoddiad Cynllun Twf ar oddeutu £19.25m dros gyfnod o dair mlynedd. O'r tri cysyniad strategol a drafodwyd wrth ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol, mae tystiolaeth i awgrymu bod o leiaf un cyflenwr mawr yn barod i fuddsoddi cyfalaf ar y cyd â'r buddiolwr posib.

5.13. Bydd y cynllun grant yn cael ei ariannu gyda £19.54m o fuddsoddiad cyfalaf y Cynllun Twf dros gyfnod cyflwyno pedair blynedd ac mae disgwyl i'r gwariant grant gyrraedd y brig erbyn blwyddyn tri ar ôl i waith hybu galw ddechrau ym mlwyddyn 1. Dengys costau'r prosiect yn y tabl isod.

| | | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf | | | | | | |
| 1 | Dyfarniadau grant | £ - | £ 4,620,053 | £ 9,754,264 | £ 4,877,132 | £ 19,251,448 |
| 2 | Dyluniad y cynllun grantiau | £ 57,750 | £ | £ | £ | £ 57,750 |
| 3 | Costau Staff wedi'u cyfalafu (UGC, rheoli prosiect) | £ 45,500 | £ 45,500 | £ 45,500 | £ 45,500 | £ 182,000 |
| 4 | Wrth Gefn | £ 20,650 | £ 9,100 | £ 9,100 | £ 9,100 | £ 47,950 |
| **5** | **Cyfanswm costau cyfalaf (CAPEX)** | **£ 123,900** | **£ 4,674,653** | **£ 9,808,864** | **£ 4,931,732** | **£ 19,539,148** |
| Gwariant Gweithredu | | | | | | |
| 6 | Adnodd Rheoli Cymorthdaliadau | £ 6,250 | £ - | £ - | £ - | £ 6,250 |
| 7 | Gweithrediad y grant | £ - | £ 22,750 | £ 22,750 | £ 22,750 | £ 68,250 |
| 8 | Asesiad o'r cais | £ - | £ 27,576 | £ 27,576 | £ 27,576 | £ 82,727 |
| 9 | Hybu'r galw | £ - | £ 45,500 | £ 45,500 | £ 45,500 | £ 136,500 |
| 10 | Rheoli rhaglen | £ | £ 8,367 | £ 8,367 | £ 8,367 | £ 25,102 |
| **11** | **Is-gyfanswm OPEX** | **£ 6,250** | **£ 104,193** | **£ 104,193** | **£ 104,193** | **£ 318,829** |
| 12 | Wrth Gefn | £ 1,250 | £ 20,839 | £ 20,839 | £ 20,839 | £ 63,766 |
| **13** | **Cyfanswm Costau Gweithredu (OPEX)** | **£ 7,500** | **£ 125,032** | **£ 125,032** | **£ 125,032** | **£ 382,595** |
| Cyfanswm Gwariant | | | | | | |
| **14** | **Cyfanswm Costau Prosiect (CAPEX + OPEX)** | **£ 131,400** | **£ 4,799,684** | **£ 9,933,895** | **£ 5,056,763** | **£19,921,743** |
| Cyllid | | | | | | |
| 15 | Cyllid CAPEX (Cynllun Twf) | £ 123,900 | £ 4,674,653 | £ 9,808,864 | £ 4,931,732 | £19,539,148 |
| 16 | OPEX (Adnodd Rheoli Cymorthdaliadau, PMO Uchelgais Gogledd Cymru) | £ 6,250 | £ - | £ - | £ - | £ 6,250 |
| 17 | OPEX (Ffi weinyddol i ymgeiswyr) | £ - | £ 104,193 | £ 104,193 | £ 104,193 | £ 312,579 |
| 18 | OPEX wrth gefn (PMO Uchelgais Gogledd Cymru) | £ 1,250 | £ 20,839 | £ 20,839 | £ 20,839 | £ 63,766 |
| **19** | **Cyfanswm cyllid** | **£ 131,400** | **£ 4,799,684** | **£ 9,933,895** | **£ 5,056,763** | **£19,921,743** |

**Amcanion Gwariant a Buddion y Prosiect**

5.14. Mae amcanion gwario'r prosiect wedi'u nodi yn y tabl isod ar y cyd ag amcanion gwario'r rhaglen, ac maent yn unol â'r rhai sydd wedi'u nodi yn Achos Busnes y Portffolio.

| Amcan Gwariant y Prosiect | Amcan Gwario'r Rhaglen Gyfatebol |
|---|---|
| Creu rhwng 130-200 o swyddi newydd yn y Gogledd drwy'r rhaglen erbyn 2036. | Creu rhwng 315 a 380 o swyddi newydd yn y Gogledd drwy'r rhaglen erbyn 2036. |
| Creu GVA ychwanegol net o £41m - £62m drwy'r prosiect erbyn 2036. | Creu GVA ychwanegol net o £130m - £158m drwy'r rhaglen erbyn 2036. |
| Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o rhwng £13m ac £20m drwy'r rhaglen erbyn 2036. | Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o rhwng £37 miliwn a £46 miliwn drwy'r rhaglen erbyn 2036. |
| Galluogi 100-200 o fusnesau a defnyddwyr sector cyhoeddus ymhob un o siroedd y gogledd i gymryd mantais o gysylltedd di-wifr uwch erbyn 2030. | |

5.15. Amcangyfrifir bod effaith y prosiect ar lefel Cymru yn **£61.9m GVA ychwanegol (heb ei ddisgowntio) a NSPV gyda disgownt o oddeutu £23.7m** a Chymhareb Budd Cost (BCR) o 3.1 (Cyfanswm cyllid sector cyhoeddus).

5.16. Dros dymor y Cynllun Twf o 15 mlynedd, ymysg y buddion mesuradwy eraill a gyflawnir gan y prosiect fydd:

- Gwell effeithiolrwydd i sefydliadau
- Busnesau sy'n fwy cystadleuol

Mae map rhesymeg wedi'i gynhyrchu gan Lywodraeth y DU yn dangos y llwybr ar gyfer yr effaith o fabwysiadu 5G, yn cael ei ddarparu yn y Crynodeb Gweithredol.

5.17. Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn egluro sut mae'r prosiect yn alinio â'r Egwyddorion Caffael sydd wedi'u mabwysiadu gan y Bwrdd Uchelgais. I sicrhau aliniad â'r uchod, mae'r prosiect wedi ymgymryd ag ymarferiad mapio i ddangos sut bydd caffael y prosiect yn cyflawni yn erbyn yr egwyddorion hyn.

5.18 Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn dangos i ba raddau y bydd y prosiect yn cyflawni targedau Allyriadau a Bioamrywiaeth y Bwrdd Uchelgais; gweler isod grynodeb sy'n destun asesiad pellach gan Achos Busnes Llawn.

| Allyriadau | RAG | Detholiad o Asesiad Carbon 2 |
|---|---|---|
| Allyriadau ymgorfforedig - gostyngiad o 40% | | Lle mae offer newydd yn amnewid offer presennol, bydd targed i leihau allyriadau tŷ gwydr ymgorfforedig. Lle mae offer ychwanegol yn cael ei gyflwyno, bydd targed i leihau unrhyw allyriadau ymgorfforedig dilynol gan ddefnyddio'r opsiynau technoleg gyda'r effaith leiaf. |
| Allyriadau gweithredol - sero net | | Lle mae offer newydd yn amnewid offer presennol, bydd targed i leihau allyriadau tŷ gwydr sy'n ymwneud ag ynni drwy gael technolegau sy'n fwy ynni effeithlon. Lle mae offer ychwanegol yn cael ei gyflwyno, bydd targed i leihau unrhyw allyriadau dilynol sy'n ymwneud ag ynni gan ddefnyddio'r dewisiadau technoleg mwyaf ynni effeithlon. |
| **Bioamrywiaeth** | | |
| 10% o enillion net mewn bioamrywiaeth | | Ni ellir cadarnhau'r potensial am enillion net bioamrywiaeth i'r prosiect yn ei gyfanrwydd yn y cam Achos Busnes Amlinellol, fodd bynnag, o ystyried sgôp y buddsoddiad sy'n bennaf gysylltiedig â gosod offer mewn eiddo presennol neu'n cael ei osod ar dir wedi'i ddatblygu, mae disgwyl i'r cyfleoedd am enillion net bioamrywiaeth fod yn gyfyngedig. |

5.19. Bydd Gwerth Cymdeithasol yn cael ei gyflawni drwy gaffael nwyddau a brynir gan ymgeiswyr grant fel amod cyllido, yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru

## 6. PROSES SICRWYDD A DEILLIANNAU

6.1. Yn unol â'r trefniadau sydd wedi'u nodi o fewn Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf, mae'r Achos Busnes Amlinellol wedi bod yn ddarostyngedig i'r gweithgaredd sicrwydd a ganlyn:

| Gweithgaredd Sicrwydd | Dyddiad | Deilliannau |
|---|---|---|
| Gweithdai Achos Busnes | 26ain Ionawr 2023 - Hydref 2023 | Achos Busnes Amlinellol drafft ar gyfer adolygiad bwrdd a phorth |
| Adolygiad Porth | 20fed-22ain Mai 2024 | Cam Asesiad Porth Ambr - Argymhellion wedi'u darparu |
| Adolygiad OBC y Swyddfa Rheoli Portffolio | 19eg Ebrill 2024 | Argymhellion wedi'u darparu |
| Bwrdd Prosiect | 22ain Chwefror 2024 | Cymeradwyaeth y Bwrdd Prosiect |
| Ardystiad y Bwrdd Rhaglen | 5ed Mawrth 2024 | Cymeradwyaeth y Bwrdd Rhaglen |
| Ardystiad y Bwrdd Cyflawni Busnes | 10fed Medi 2024 | Cymeradwyaeth y Bwrdd Cyflawni Busnes |
| Ardystiad y Bwrdd Portffolio | 6ed Medi 2024 | Cymeradwyaeth y Bwrdd Portffolio |
| Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais | 20fed Medi 2024 | *I'w gwblhau* |

## 7. TROSOLWG Y SWYDDFA RHEOLI PORTFFOLIO O'R ACHOS BUSNES

7.1. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r prif argymhellion sy'n deillio o asesiad y Swyddfa Rheoli Portffolio o'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) sydd wedi'i ddiweddaru a'r argymhellion allweddol fydd angen ymdrin â hwy cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais.

| | Crynodeb o Asesiad y Swyddfa Rheoli Portffolio | Materion sy'n parhau |
|---|---|---|
| **Achos Strategol** | • Egluro amcanion gwario, adolygu gofynion CAMPUS<br>• Egluro sgôp y prosiect, sicrhau cysondeb rhwng trefniadau, anghenion busnes a sgôp presennol.<br>• Darparu rhagor o fanylion am aliniad polisi<br>• Diffinio a chategoreiddio buddion yn gliriach<br>• Adolygu cyfyngiadau, gan gynnwys rheoli cymorthdaliadau | • Sicrhau bod Aliniad Strategol â pholisïau/strategaethau Cenedlaethol yn cael ei ddiweddaru gan Achos Busnes Llawn<br>• Adolygu'r Amcanion Gwario gydag Achos Busnes Llawn - cymesur, CAMPUS<br>• Cadarnhau'r cyfyngiadau<br>• Diweddaru'r asesiad buddion drwy Achos Busnes Llawn |

| | Crynodeb o Asesiad y Swyddfa Rheoli Portffolio | Materion sy'n parhau |
|---|---|---|
| **Achos Economaidd** | • Dengys swm sylweddol o ddata o ansawdd da yn yr atodiadau. Byddai crynodeb clir o beth o'r data hwn o ran costau a buddion yn gwella'r achos economaidd.<br>• Nid yw'r cyfrifo Cymarebau Budd-Cost yn glir iawn. Mae angen nodi'r prif dybiaethau a dylid cyfeirio at dystiolaeth empirig.<br>• Rhestr hir glir wedi'i darparu, darparu manylion ar ddisgowntio opsiynau<br>• Darparu manylion pellach ar yr opsiwn busnes fel arfer<br>• Darparu manylion pellach yn y Cynllun Gwireddu Buddion<br>• Defnydd rhesymol o Ffactorau Llwyddiant Hanfodol<br>• Darparu rhestr hir drylwyr o opsiynau<br>• Darparu manylion o'r tybiaethau a ddefnyddir mewn arfarniad economaidd<br>• Ystyried cyfeirio at brosiectau tebyg i ddarparu tystiolaeth empirig o fuddion yn yr achos economaidd<br>• Angen gwaith pellach ar ddadansoddi sensitifrwydd a thueddiad optimistaidd | • Adolygu'r tybiaethau yn yr Achos Economaidd drwy Achos Busnes Llawn gan ddefnyddio adborth o werthusiad Rhaglen Arloesi 5G y DU, darparu manylion o'r tybiaethau allweddol<br>• Diweddaru'r Cynllun Gwireddu Buddion<br>• Darparu manylion pellach ar gyfrifo costau/buddion Allyriadau a Bioamrywiaeth drwy Achos Busnes Llawn yn amodol ar ddyluniad y Cynllun Grant<br>• Diweddaru dadansoddiad sensitifrwydd a thueddiad optimistaidd, cyfeiriad at ragor o fanylion ynghylch cynlluniau mwy aeddfed a allai ddarparu tystiolaeth empirig i wella'r modelu |

| | Crynodeb o Asesiad y Swyddfa Rheoli Portffolio | Materion sy'n parhau |
|---|---|---|
| **Yr Achos Masnachol** | • Gwneud cyfeiriad cliriach at yr Egwyddorion Caffael<br>• Darparu rhagor o fanylion ar yr amserlenni caffael arfaethedig<br>• Egluro sut mae gwerth cymdeithasol yn cael ei gymhwyso<br>• Darparu rhagor o fanylion ar risgiau a mesurau lliniaru<br>• Opsiynau Rheoli Cymorthdaliadau yn cael eu gosod allan, i'w cadarnhau gydag Achos Busnes Llawn | • Cadarnhau'r gost o ddylunio'r cynllun grant ar ôl caffael cyn yr Achos Busnes Llawn<br>• Cadarnhau'r trefniadau rheoli cymorthdaliadau ar gyfer y cynllun grant<br>• Wrth i'r Achos Busnes Llawn nodi'r model gweithredu mwyaf addas a'r Corff Atebol ar gyfer y cynllun grant, tybir ar hyn o bryd mai Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd sydd ar y gorwel / Uchelgais Gogledd Cymru fydd hwn.<br>• Wrth i'r Achos Busnes Llawn sicrhau bod y farchnad yn cael ei phrofi o ran y sail cyflenwyr posib a sgôp y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i redeg cronfa; adnabod darparwyr addas a medrus sydd wedi'u lleoli yn y gogledd.<br>• Wrth i'r Achos Busnes Llawn ystyried trefniadau partneriaeth posib gyda Banc Datblygu Cymru er mwyn i Uchelgais Gogledd Cymru gyflawni grant ar y cyd â chynnig benthyciadau SME Banc Datblygu Cymru.<br>• Wrth i'r Achos Busnes Llawn gwblhau'n derfynol y trefniadau cytundebol mwyaf addas ar gyfer yr adnoddau sy'n cael eu caffael.<br>• Wrth i'r Achos Busnes Llawn sicrhau cyngor cyfreithiol ar ddyletswyddau ymddiriedol ac ystyriaethau rheoli cymorthdaliadau sy'n ymwneud â'r cynllun grant. |

| | Crynodeb o Asesiad y Swyddfa Rheoli Portffolio | Materion sy'n parhau |
|---|---|---|
| **Achos Ariannol** | • Egluro'r ffynonellau ariannol<br>• Addasu tablau i egluro'r categorïau cost<br>• Darparu manylion pellach ar dyb-iaethau cost<br>• Egluro'r sefyllfa TAW<br>• Darparu manylion pellach ar risg-iau a chyfyngiadau | • Cadarnhau costau dylunio'r cynllun grant drwy Achos Busnes Llawn<br>• Darparu manylion pellach ar dyb-iaethau cost sy'n gysylltiedig â dyf-arnu gwariant y Cynllun Grant gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiwedd-araf o Raglen IR 5G y DU a chynllun-iau eraill (gweler gofynion yr Achos Economaidd)<br>• Adolygu'r risgiau ariannol drwy Achos Busnes Llawn |
| **Achos Rheol-aethol** | • Egluro'r gofynion i ymgysylltu â rhan-ddeiliaid a'r gofynion ar gyfer hybu'r galw<br>• Egluro'r goblygiadau o ran gofyn-ion sgiliau a hyfforddi | • Diweddaru'r Achos Rheolaethol drwy Achos Busnes Llawn i gadarn-hau costau cyflawni'r Cynllun Grant<br>• Gweithio â'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol i egluro'r gofynion a'r cyfleoedd i gydweithio â darparwyr sgiliau rhanbarthol a gweithgar-eddau hybu'r galw<br>• Egluro sgôp y gweithgareddau hyb-u'r galw cyn ac yn ystod cyflwyno'r cynllun |

## 8. Risgiau Allweddol

8.1. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn ystyried yr isod fel y risgiau allweddol y bydd angen eu rheoli'n ofalus i sicrhau bod y buddion yn cael eu cyflawni:

| Pennawd Risg | Mesur Lliniaru Risg |
|---|---|
| • Os nad oes arian refeniw ar gael i weithredu, cyflawni ac ystyried y prosiect, fel bod op-siynau yn cael eu diystyru neu fuddion ddim yn cael eu gwir-eddu | • Bydd dyluniad y cynllun grant yn ystyried dull tebyg i'r model a gynigiwyd ar gyfer Ynni Lleol Blaengar, gyda hyrwyddo a hybu'r galw yn rhan o gyflwyno'r cynllun<br>• Ceisir ffynonellau ychwanegol o arian refeniw lle bo hynny ar gael i gefnogi'r gweithgareddau hybu'r galw yn dilyn y gweith-garwch cychwynnol a ariannwyd gan SPF yn 2024. |
| • Os yw'r galw am arian yn gyf-yngedig, ni fydd buddion y prosiect yn cael eu gwireddu. | • Mae'r ymgynghori cychwynnol yn awgrymu bod galw clir gan dri phrif ddefnyddiwr posib yn y rhanbarth. Bydd cyswllt parhaus â Llywodraeth y DU ynghylch ei raglen Rhanbarthau Arloesi 5G yn rhoi gwybod sut i gyfeirio gweithgareddau hybu'r galw a sec-torau targed.<br>• Bydd angen i ddyluniad a sgôp y cynllun grant ystyried gofynion a gallu sefydliadau a bydd eu telerau yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas. |

| | |
|---|---|
| • Os bydd y ffi weinyddol sy'n cael ei chymhwyso i ymgeiswyr llwyddiannus yn llesteirio ymgeiswyr, efallai y bydd llai o'r gronfa cyfalaf yn cael ei chyflwyno, gan roi cyflawni'r amcanion gwario a'r buddion yn y fantol. | • Ymgynghori ag amrediad o ymgeiswyr posib i sicrhau bod ffioedd gweinyddol yn gymesur ac yn fforddiadwy ar draws amrediad o werthoedd prosiect (uchel i isel).<br>• Adolygu'r ffioedd gweinyddol drwy oes y prosiect a'u hadolygu lle bo angen a sicrhau bod y prosiect yn parhau i fod yn fforddiadwy. |
| • Os nad oes digon o alw am y grantiau ar y gwerthoedd isaf a ragnodir yn y cynllun, gallai'r costau sy'n gysylltiedig â chyflawni a gweinyddu fynd yn anfforddiadwy. | • Drwy ymgynghori â darpar ymgeiswyr fydd angen ei wneud wrth ddylunio'r cynllun a lefel uchel o ymgysylltiad, hyrwyddo a gweithgarwch hybu'r galw wedi'i gynllunio i sicrhau bod digon o fynegiannau o ddiddordeb o ansawdd yn cyrraedd. |
| • Os yw'r cynllun yn denu nifer fawr o geisiadau aflwyddiannus, efallai y bydd y gost o'u gweinyddu yn fwy na'r incwm gaiff ei sicrhau o geisiadau llwyddiannus, gan roi fforddiadwyedd y cynllun yn y fantol. | • Bydd angen i ddyluniad y cynllun grant ystyried dulliau effeithiol o brosesu mynegiannau o ddiddordeb yn effeithlon, fel mai dim ond y rhai sydd â thebygolrwydd uchel o lwyddo fydd yn cael eu derbyn i fynd ymlaen i gais llawn. Bydd angen cydbwyso meini prawf y cynllun yn briodol i annog ceisiadau a gosod gofynion cymhwysedd cymesur sy'n lleihau'r risg o fethu â chyflawni amcanion gwario a buddion y prosiect. |
| • Os oes diffyg adnodd caffael, masnachol a gweithredu, bydd y prosiectau yn cael eu hoedi neu'n llai llwyddiannus | • Mae'r Full Business Case yn caffael fframwaith cefnogi i sicrhau bod capasiti ar gael ar draws y swyddogaethau |

**9. AMSERLEN Y PROSIECT A'R CAMAU NESAF**

| Gweithgaredd | Dyddiadau Targed |
|---|---|
| Penderfyniad cymeradwyo Achos Fusnes Amlinellol y Bwrdd Uchelgais | 20fed Medi 2024 |
| Cwblhau'r Broses Gaffael | 30ain Tachwedd 2024 |
| Achos Busnes Llawn (FBC) drafft i'r Swyddfa Rheoli Portffolio | 29ain Rhagfyr 2024 |
| Adolygiad Porth 3 | 3ydd Chwefror 2025 |
| Cymeradwyaeth Achos Fusnes Llawn gan y Bwrdd Rhaglen/Portffolio | Chwefror 2025 |
| Bwrdd Uchelgais yn Cymeradwyo'r Achos Fusnes Llawn | Mawrth 2025 |
| Dechrau ar y Safle | Ebrill 2025 |
| Gwerthusiad terfynol | Rhagfyr 2028 |

**10. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

10.1. Mae'r prosiect Di-wifr Uwch yn un o ddau brosiect yn y prosiect Campysau Cysylltiedig lle mae cyllideb gyffredinol o £20.68m wedi'i dyrannu yn y Portffolio. Mae'r prosiect yn gyfwerth â chyfanswm cost cyfalaf i gyllideb y Cynllun Twf o £19.54m.

10.2. Mae gofyniad am adnoddau'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gefnogi cam cychwynnol y costau refeniw ar gyfer cyflawni'r prosiect gyda hyn i'w gadarnhau erbyn y cam Achos Busnes Llawn. Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn cynnig sicrhau incwm gan fuddiolwyr grantiau llwyddiannus i ariannu gweinyddiaeth y cynlluniau ac mae disgwyl i'r incwm hwn gychwyn yn ystod blwyddyn 1 wrth i geisiadau gael eu cymeradwyo. Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn garreg filltir arwyddocaol i'r prosiect a phe byddai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r achos busnes, bydd angen gwaith pellach i ddiweddaru'r achos busnes ar ôl caffael i ddarparu eglurder ar y costau, y risgiau a'r buddion sydd ynghlwm â'r prosiect cyn penderfyniad buddsoddi terfynol gan y Bwrdd.

10.3. Bydd y costau refeniw sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â'r broses gaffael a datblygu'r Achos Fusnes Llawn yn cael eu talu allan o gyllideb gytunedig y Swyddfa Rheoli Portffolio.

**11. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

11.1. Mae'r gwaith o ddatblygu'r achos busnes a'r prosesau sicrwydd wedi'i wneud yn unol â gofynion cytundeb terfynol y Cynllun Twf.

11.2. Mae cais wedi'i wneud am gyngor cyfreithiol allanol ar y prosiect i gadarnhau gallu'r Bwrdd i fuddsoddi yn y prosiect mewn modd sy'n cydymffurfio â rheoli cymhorthdal (cymorth gwladwriaethol). Bydd y cyngor a dderbynnir yn llywio'r gwaith sy'n arwain at gyflwyno'r Achos Fusnes Llawn. Efallai y bydd angen comisiynu cyngor cyfreithiol pellach ar ôl derbyn y Achos Fusnes Llawn cyn i'r Bwrdd wneud penderfyniad buddsoddi terfynol.

11.3. Pe byddai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r achos busnes amlinellol, caiff y dogfennau perthnasol eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gymeradwyo'r broses sicrwydd cyn y gall y prosiect fwrw ymlaen i'r cam nesaf.

**12. ASESIADAU EFFAITH**

12.1. Mae asesiad effaith integredig (Atodiad 2) wedi'i wneud i asesu effaith y prosiect ar yr iaith Gymraeg, cydraddoldeb ac yn erbyn Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hadnabod drwy'r asesiad.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Achos Busnes Amlinellol Di-wifr Uwch |
| **Atodiad 2** | Asesiad Effaith Integredig |

**DOGFENNAU CEFNDIR (mae rhai dogfennau yn cynnwys gwybodaeth eithriedig):**

- Atodiadau i'r Achos Busnes Amlinellol – Di-wifr Uwch *(ar gael ar gais)*
- Teclyn Olrhain OBC_Swyddfa Rheoli Portffolio
- Adolygiad Porth 2 Cynllun Twf Gogledd Cymru

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i.Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

“Mae cyflwyno'r Achos Fusnes Amlinellol i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn gam allweddol wrth weithredu'r Cynllun Twf. Mae hwn yn gam interim tuag at baratoi'r Achos Busnes Terfynol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw priodol at y risgiau a'r elfennau y bydd angen mynd i'r afael â hwy neu eu cadarnhau cyn cyflwyno Achos Busnes Terfynol. Bydd cwblhau'r sefyllfa gyfreithiol ar Rheolaeth Cymhorthdal yn rhan o'r gwaith hwn. Mae ystod o ymyriadau a nodwyd yn cael eu cefnogi gan y prosiectau hyn a bydd angen cymorth cyfreithiol pellach i gefnogi'r gweithgareddau hyn a'r dogfennau contract a chaffael.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Gwelir o’r dogfennau sydd wedi eu cyflwyno fod gwaith manwl wedi cael ei gyflawni wrth ddarparu’r Cynllun Busnes Amlinellol hwn. Credaf fod y risgiau ariannol ac anariannol perthnasol wedi cael sylw dilys, ac mae trefniadau lliniaru priodol yn eu lle, neu wedi cael eu hamlinellu.

Rwyf yn fodlon â chywirdeb ariannol yr wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno, yn enwedig Rhan 4 o’r Cynllun Busnes Amlinellol, sef yr Achos Ariannol. Bydd gwaith yn parhau ar yr holl agweddau hyn yn ystod datblygu’r Cynllun Busnes Terfynol. Gallaf gadarnhau mai arian cyfalaf yn unig yw pecyn ariannu y Cynllun Twf.

Felly, ar sail y dystiolaeth rwyf wedi ei weld nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniadau a geisir.”

Crynodeb Gweithredol

# Achos Busnes Amlinellol – Di-wifr Uwch

Prosiect Campysau Cysylltiedig

Uchelgais Gogledd Cymru

11 Medi 2024

F1.2

## Rheoli Dogfen

| Fersiwn | Newidiadau | Dyddiad |
| --- | --- | --- |
| 0.1 | Drafft Cychwynnol | Tach 2023 |
| 0.2-0.3 | Drafftiau iteraidd | Tach 2023-Ion 2024 |
| 0.4 | Adlewyrchu adborth gan y Bwrdd Prosiect | Chwe 2024 |
| 0.5 | Adlewyrchu adborth y PMO o 15/04 | Ebr 2024 |
| 0.6 | Adlewyrchu adborth y PMO o 19/04 | Ebr 2024 |
| 0.7 | Adlewyrchu sylwebaeth y Bwrdd Prosiect a'r Bwrdd Rhaglen | Ebrill 2024 |
| 0.8 | Fformatio a chywiriadau talgrynnu | Mai 2024 |
| 1.0 | Diweddariadau Achos Ariannol ac Achos Rheolaethol | Awst 2024 |
| 1.2 | Diweddariadau Achos Ariannol | Medi 2024 |

## Awdurdodiad

| Fersiwn | | Dyddiad |
| --- | --- | --- |
| 0.4 | Bwrdd Prosiect Campysau Cysylltiedig | 22 Chwefror 2024 |
| 0.6 | PMO Uchelgais Gogledd Cymru | 19 Ebrill 2024 |
| 0.7 | Bwrdd Rhaglen Digidol | 5 Mawrth 2024 |
| 1.0 | Bwrdd Portffolio | 6 Medi 2024 |
| 1.2 | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | |

## Cynnwys


1. Achos Strategol5
2. Achos Economaidd16

3.19191919

4. Achos Ariannol22
5. Achos Rheolaethol26

## Rhestr Termau

| TERM | DIFFINIAD |
|---|---|
| **5G IR** | Rhanbarthau Arloesi 5G |
| **ANW** | Uchelgais Gogledd Cymru |
| **AR** | Realiti Estynedig |
| **BAU** | Busnes fel Arfer |
| **BCR** | Cymhareb Cost Budd |
| **BDUK** | Building Digital UK |
| **CC** | Campysau Cysylltiedig |
| **CCR** | Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| **CKSC** | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol |
| **CSF** | Ffactorau Llwyddiant Hanfodol |
| **DCMS** | Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon |
| **DSIT** | Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg |
| **EAS** | Gwasanaeth Ardal Estynedig |
| **ESN** | Rhwydwaith Gwasanaethau Brys |
| **FTIR** | Future Telecoms Infrastructure Review |
| **GDP** | Cynnyrch Domestig Gros |
| **GMW** | Tyfu Canolbarth Cymru |
| **GVA** | Gwerth Ychwanegol Crynswth |
| **IAAS** | Seilwaith fel Gwasanaeth |
| **JOTS** | Manyleb Dechnegol Gweithredwyr ar y Cyd |
| **LPWAN** | Rhwydwaith Ardal Ehangach Pŵer Isaf |
| **MMWAVE** | Ton Milimedr - gall y rhwydweithiau Ystod 2 Amledd 5G hyn ddarparu cyfraddau data aml-gigabit a chuddni isel iawn |
| **MNOS** | Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol (EE, Three, O2, Vodafone) |
| **MPNS** | Rhwydweithiau Preifat Symudol |
| **NWEAB** | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| **NWGD** | Cynllun Twf Gogledd Cymru |
| **OBC** | Achos Busnes Amlinellol |
| **OFCOM** | Rheoleiddiwr Telathrebu |
| **OP** | Opsiwn |
| **OPEN RAN** | Rhwydweithiau Mynediad Radio Agored - cysyniad ar gyfer mwy o fynediad radio agored i bensaernïaeth rhwydweithiau symudol |
| **PMO** | Swyddfa Rheoli Prosiect |
| **RD & I** | Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd |
| **SBCD** | Bargen Ddinesig Bae Abertawe |
| **SO** | Amcanion Gwariant |
| **SOC** | Achos Amlinellol Strategol |
| **SRN** | Rhwydwaith Gwledig a Rennir |
| **SRO** | Uwch Berchennog Cyfrifol |
| **SUB-6GHZ** | Sbectrwm rhwydwaith symudol |
| **UKG** | Llywodraeth y DU |
| **VHF** | Amledd Uchel Iawn |
| **VR** | Realiti Rhithwir |
| **WTP** | Barod i Dalu |

# Crynodeb Gweithredol

## Pwrpas y ddogfen hon

Mae'r Achos Busnes Di-wifr Uwch yn rhan o Brosiect Campysau Cysylltiedig Rhaglen Ddigidol Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn cyflwyno'r achos am fuddsoddiad o'r Cynllun Twf i gefnogi mabwysiadu technolegau di-wifr uwch ar draws y rhanbarth gan sefydliadau'r sector preifat a'r sector cyhoeddus.

Mae'r achos busnes yn nodi'r Opsiwn Ffafriedig fel cronfa £19m i weithredu fel cynllun grant hyblyg i ariannu mabwysiadu datrysiadau di-wifr uwch. Bydd y cynllun yn cael ei weinyddu gan Uchelgais Gogledd Cymru dros gyfnod o dair blynedd yn dilyn dyluniad cychwynnol y cynllun gyda rheolaeth prosiect yn cael ei ddarparu gan y noddwr, Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd cam cyntaf y prosiect yn cynnwys dylunio a sefydlu'r cynllun grant ac yna darparu cyllid cyfalaf i sefydliadau'r sector preifat a'r sector cyhoeddus a fydd yn gwneud cais am gyllid yn unol ag amodau a meini prawf cymhwysedd y cynllun.

Pwrpas yr Achos Busnes Amlinellol hwn yw:

- Nodi'r amcanion ar gyfer y Prosiect
- Ystyried yr Achos dros Newid a nodi'r broblem/problemau sydd i'w datrys
- Nodi Rhestr Hir a Rhestr Fer o Opsiynau i fynd i'r afael â'r broblem a dewis y Ffordd Ymlaen a Ffafrir a'r Opsiwn Ffafriedig
- Manylu ar yr achosion masnachol, ariannol a rheolaethol i gefnogi'r Opsiwn Ffafriedig

### Technoleg Di-wifr Uwch

Wrth gyfeirio at dechnoleg 'Di-wifr Uwch', mae sgôp y prosiect yn cyd-fynd â Strategaeth Seilwaith Di-wifr y DU (2023):

*"O ran sgôp, rydym yn ystyried yr ystod lawn o dechnolegau di-wifr ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu. O ystyried pwysigrwydd parhaus rhwydweithiau symudol cellog, yn naturiol mae gennym ffocws sylweddol ar **4G a 5G** ond hefyd rydym yn cydnabod rôl technolegau di-wifr eraill fel **Wi-Fi**, yn ogystal â'r defnydd o **wasanaethau cyfathrebu lloeren, rhwydweithiau preifat a rhwydweithiau ardal eang pŵer isel**. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod esblygiad sylweddol a pharhaus technolegau di-wifr a'r farchnad telathrebu yn ehangach. … rydym yn cydnabod pwysigrwydd parhaus technolegau fel Wi-Fi ar gyfer darllediadau dan do a rhwydweithiau sydd wedi'u hanelu'n bennaf at dechnolegau IoT*

#### Gwaith Blaenorol

Yn Achos Busnes gwreiddiol Rhaglen 2020, aeth prosiect y Campysau Cysylltiedig ati i gefnogi cyflwyno rhwydweithiau di-wifr uwch mewn 18 safle economaidd allweddol erbyn 2030 gydag opsiynau cysylltedd blaengar i gynyddu natur gystadleuol, gwytnwch, ac effeithlonrwydd trwy drawsnewid digidol. Roedd hefyd yn cynnwys sgôp darparu rhwydweithiau Ardal Eang Pŵer Isel (LPWAN) i gefnogi mabwysiadu cymwysiadau Rhyngrwyd Pethau ar draws y rhanbarth. Ym mis Tachwedd 2022, penodwyd Spirit Public Sector Ltd (Spirit) i ddarparu cymorth achos busnes i gynnal Astudiaeth Sgopio, i ddatblygu'r Achosion Amlinellol Strategol drafft presennol ymhellach, ac i ddatblygu'r Achosion Amlinellol a Busnes Llawn. Yn

dilyn yr adolygiad hwn, a oedd yn cynnwys sgôp ehangach y prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig cyfochrog, lluniodd Spirit ddogfen sgopio Di-wifr Uwch sy'n amlinellu'r Amcanion Gwariant drafft a'r sgôp ar gyfer y prosiect, a oedd yn canolbwyntio ar Don 5G mm ar y pryd. Ers hynny, mae'r buddsoddiad LPWAN, sy'n parhau i fod o fewn y prosiect Campysau Cysylltiedig, wedi cael ei ddatblygu fel Achos Cyfiawnhad Busnes penodol.

Yn ystod datblygiad y SOC a'r OBC hwn, datblygodd yr Amcanion Gwariant i fynd i'r afael â sgôp ehangach technolegau di-wifr uwch oherwydd gellir bodloni gofynion busnes ag amleddau 5G eraill a thechnolegau gwahanol. Mae'r Achosion Strategol ac Economaidd yn disgrifio'r rhesymeg y tu ôl i'r esblygiad hwn. Nodwyd yr Amcanion Strategol ar gyfer pob prosiect, gan gynnwys Di-wifr Uwch yn ystod gweithdai a gynhaliwyd gyda'r Bwrdd Prosiect yn ystod gwedd darganfod datblygiad SOC.

# 1. Achos Strategol

## 1.1 Y Cyd-destun Strategol

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) yn gyd-bwyllgor o'r chwe arweinydd awdurdod lleol a phrif weithredwyr ac ymgynghorwyr o'r ddwy brifysgol, dau goleg addysg bellach a'r sector preifat. Gweledigaeth y Bwrdd ar gyfer Gogledd Cymru yw: 'Rhanbarth hyderus, gydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon.'

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB). Mae'r cytundeb yn rhoi £240m o gyllid i'r Bwrdd Uchelgais i gyflawni'r weledigaeth hon:

- Adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.
- Adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd a mynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hirdymor i gyflawni twf cynhwysol.
- Hyrwyddo twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn rheoli Portffolio o bum rhaglen galluogi a sefydlwyd i ddefnyddio arian y Cynllun Twf. Mae pob Rhaglen yn gweithredu ar ran y Bwrdd i adnabod, sgopio a chyflwyno'r mentrau a fydd yn cefnogi cyflawni'r weledigaeth.

### 1.1.1 Rhaglen Cysylltedd Digidol Uchelgais Gogledd Cymru

Nod y Rhaglen Cysylltedd Digidol yw "darparu gwell darpariaeth o gysylltedd digidol fforddiadwy o ansawdd uchel i safleoedd yng Ngogledd Cymru i gefnogi cyflawni nodau'r Cynllun Twf ar gyfraddau cymharol neu gyflymach na gweddill y DU1[1]". Mae'r Rhaglen yn cynnwys pedwar prosiect (1) Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig (2) Campysau Cysylltiedig (3) Yr Ychydig % Olaf a (4) Canolfan Prosesu Signal Digidol (Prifysgol Bangor).

---

[1]Achos Busnes Rhaglen Ddigidol Uchelgais Gogledd Cymru

- Mae Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig yn ymwneud â defnyddio seilwaith rhwydwaith 4G + a ffibr optig. Mae Campysau Cysylltiedig yn ymwneud â defnyddio datrysiadau LPWAN a Di-wifr Uwch.

- Mae di-wifr uwch yn canolbwyntio ar ymyrraeth ar gyfer y Rhaglen Ddigidol oherwydd bod y cysylltedd yn cefnogi defnyddwyr sydd â gofynion lled band uchel, cuddni isel. Mae gofynion o'r fath yn arwain at y defnydd o dechnolegau uwch a datblygol a ddylunnir i drawsnewid y ffordd y mae diwydiant a masnach fodern, ac mewn rhai achosion defnyddwyr domestig, yn gweithredu.

### 1.2 Aliniad Llywodraeth Genedlaethol a Lleol

Mae'r prosiect Di-wifr Uwch yn cefnogi strategaethau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol ac amcanion Portffolio a Rhaglen Ddigidol Uchelgais Gogledd Cymru drwy greu cyfle i fusnesau, sefydliadau a chymunedau sefydlu rhwydweithiau di-wifr uwch ar gyfer y dyfodol ar draws ardaloedd yng Ngogledd Cymru, a lleoliadau allweddol i sbarduno mwy o GVA, creu swyddi a mewnfuddsoddiad.

**Dogfennau strategol Llywodraeth Cymru**

Mae'r Strategaeth Genedlaethol (Symud Cymru Ymlaen 2016-2021), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ac eraill i gyd yn disgrifio naill ai bwysigrwydd gwell cysylltedd digidol neu'n disgrifio canlyniadau sy'n cael eu galluogi gan well cysylltedd digidol.

- Strategaeth Arloesi i Gymru (Chwefror 2023)
- Strategaeth Ddigidol i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2021)

Mae'r strategaeth ddigidol a data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 20232[2]) hefyd yn disgrifio pwysigrwydd seilwaith digidol cadarn a sefydlog, gan gynnwys cysylltedd, a all weithredu fel un system integredig i gefnogi iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Dogfennau strategol Llywodraeth y DU**

Mae Papur Gwyn Ffyniant Bro (2022) yn amlygu ac yn ymrwymo i roi diwedd ar yr "anghydraddoldeb daearyddol sy'n nodwedd mor drawiadol o'r DU". Mae'n cydnabod bod seilwaith digidol yn ofyn craidd ar gyfer codi'r gwastad, ac fel strategaethau eraill yn ailddatgan uchelgais Llywodraeth y DU ar gyfer *"band eang gigabit a darpariaeth 4G ledled y wlad erbyn 2030, gyda darpariaeth 5G ar gyfer mwyafrif y boblogaeth".3*[3] *(t6)*

- Strategaeth Ddigidol y DU (DCMS, 2022)
- Adolygiad Seilwaith Telathrebu'r Dyfodol (FTIR) (Llywodraeth y DU, 2018)
- Strategaeth Seilwaith Cenedlaethol (Llywodraeth y DU, 2020)

---

[2] https://www.gov.wales/digital-and-data-strategy-health-and-social-care-wales-html#127708

[3] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1095544/Executive_Summary.pdf

Mae **Strategaeth Seilwaith Di-wifr y DU (2023)** yn disgrifio'r uchelgais ar gyfer darparu darpariaeth 4G i 95% o ehangdir y DU erbyn 2025 a rhwydwaith 5G SA ledled y wlad i ardaloedd poblog erbyn 2030. Mae'n manylu ar rôl Mynediad Di-wifr Sefydlog, Lloeren, Wi-fi a thechnolegau eraill. Mae'n mynd i'r afael â buddion a heriau cysylltedd di-wifr uwch ac yn disgrifio'r hyn fydd y llywodraeth yn ei wneud i oresgyn yr heriau a gyrru'r buddion.[4] **Mae'r Strategaeth Seilwaith Di-wifr yn nodi y disgwylir i gyfleustodau clyfar a gweithgynhyrchu clyfar ychwanegu £9.4 biliwn a £6.1 biliwn yn y drefn honno at GDP y DU erbyn 2030.** *"Bydd technolegau di-wifr uwch yn allweddol i yrru uchelgeisiau'r llywodraeth i harneisio trawsnewid digidol i adeiladu economi ddigidol fwy cynhwysol, cystadleuol ac arloesol. Mae gan 5G yn benodol, y potensial i ddatgloi buddion economaidd a chymdeithasol sylweddol i'r DU gyfan".*

Mae **Rhanbarthau Arloesi 5G (Adran y Diwydiant Gwyddoniaeth a Thechnoleg, 2023)** yn rhaglen i greu deg rhanbarth Arloesi 5G sy'n sbarduno twf economaidd trwy gynyddu'r niferoedd sy'n mabwysiadu di-wifr uwch, yn cyflymu buddsoddiad trwy grynhoi'r galw am 5G a meithrin yr ecosystem 5G. Mae'r rhaglen yn darparu cyllid i fynd i'r afael â'r un heriau â thargedau prosiect Di-wifr Uwch, Uchelgais Gogledd Cymru.[5] Mae 37 o brosiectau yn archwilio llawer o wahanol agweddau a heriau o ran darparu a defnyddio 5G mewn gwahanol sectorau. Roedd hefyd yn cefnogi creu rhwydwaith arloesi cenedlaethol, "UK5G", i adeiladu, cysylltu a llywio ecosystem 5G y DU. Mae gwerthusiad interim y rhaglen[6] yn casglu bod Cymhareb Cost Budd (BCR) o 15.8:1 wedi'i chyflawni ar adeg yr adroddiad gyda'r gwerthusiad terfynol i fod i gael ei lunio yn 2025.

**Strategaethau Eraill**

Mae strategaethau eraill yn disgrifio'r cyfeiriad ar gyfer darparu cysylltedd symudol neu nodweddion technegol/masnachol y farchnad, yn hytrach na'r gofynion presennol. Maent yn cynnwys "**Strategaeth Arallgyfeirio Cadwyn Gyflenwi 5G y DU (2020, Llywodraeth y DU)", Egwyddorion Rhwydweithiau Mynediad Radio (RAN) Agored (2022, Llywodraeth y DU)**, ac **Egwyddorion Rhwydweithiau Mynediad Radio (RAN) Agored y DU (2022, Llywodraeth y DU)** .

Mae **Strategaeth Ddigidol Gogledd Cymru** yn amlinellu cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a blaenoriaethau i'w gweithredu mewn cysylltedd digidol yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys cyflwyno ystod o opsiynau cysylltedd symudol fel 5G yn gyflymach na chynlluniau'r farchnad.

### 1.3 Yr Achos dros Newid

#### 1.3.1 Amcanion Gwariant

Mae dadansoddiad gan lywodraeth y DU yn cefnogi'r awgrym y gall di-wifr uwch ddatgloi buddion economaidd. Derbynnir yn gyffredinol y bydd mabwysiadu di-wifr uwch yn gwella GVA a chynhyrchedd, a hefyd yn creu swyddi a mewnfuddsoddiad wrth ei ymestyn. Fodd bynnag, mae modelu hyn yn feintiol yn anodd i'w sefydlu gyda hyder, gan fod y technolegau a'u cymwysiadau yn gymharol newydd a dim ond o fewn y blynyddoedd diwethaf y mae achosion defnydd byd go iawn wedi dod i'r amlwg. Mae'r prosiect yn cyfrannu at amcanion gwariant yr Achos Busnes Rhaglen Ddigidol.

---

[4] https://www.gov.uk/government/publications/uk-wireless-infrastructure-strategy/uk-wireless-infrastructure-strategy

[5] Rhanbarthau Arloesi 5G: ar agor ar gyfer ceisiadau - GOV.UK (www.gov.uk)

[6] Mae'r gwerthusiad interim o Brawf-welyau a Threialon 5G (publishing.service.gov.uk)

| | |
|---|---|
| **Amcan Gwariant 1 – Swyddi** | Creu rhwng 315 a 380 o swyddi newydd yn y Gogledd drwy'r rhaglen erbyn 2036. |
| **Amcan Gwariant 2 - GVA** | Creu GVA ychwanegol net o £130m - £158m drwy'r rhaglen erbyn 2036. |
| **Amcan Gwariant 3 - Buddsoddiad** | Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o rhwng £37m a £46m drwy'r rhaglen erbyn 2036. |
| **Amcan Gwariant 4 – Marchnad Gadarn a Chystadleuol mewn Safleoedd Allweddol** | Cyflwyno marchnad cysylltedd gadarn a chystadleuol mewn 28 safle strategol i gyd-fynd â tharged Llywodraeth y DU o ddarpariaeth galluedd gigabit erbyn 2025, neu cyn hynny. |
| **Amcan Gwariant 5 - Darpariaeth symudol lled band uchel ar rwydweithiau trafnidiaeth** | Cyflwyno darpariaeth symudol lled band uchel ar rwydweithiau trafnidiaeth gyda defnydd yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth y DU o ddarpariaeth 5G erbyn 2027, neu cyn hynny. Darpariaeth ar draws yr A55, yr A483 a'r A5. |
| **Amcan Gwariant 6 – Cysylltedd digidol cyflym iawn ym mhobman** | Sicrhau bod gan yr holl eiddo preswyl yn y rhanbarth gysylltedd band eang cyflym iawn yn y tymor byr (erbyn 2023) gyda galluedd uwchraddio gigabit wedi'i gynnwys gyhyd ag sy'n bosib. |
| **Amcan Gwariant 7 – Arloesi Seilwaith Digidol** | Sicrhau bod y rhanbarth wedi'i rymuso i gymryd rhan mewn arloesedd a masnacheiddio'r dechnoleg isadeiledd ddigidol newydd i gyflawni a chyfnerthu rôl hirdymor mewn diwydiant sydd o bwys strategol |

*Tabl 1 Amcanion Gwariant Rhaglen Ddigidol*

Bydd y prosiect Di-wifr Uwch yn cefnogi'r tri Amcan Gwariant o gefnogi creu swyddi, cynyddu GVA a denu buddsoddiad pellach. Amcanion Gwariant Portffolio yw'r rhain ac mae pob un o'r prosiectau yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru yn cyfrannu atynt.

| | |
|---|---|
| **Amcan Gwariant 1 Di-wifr Uwch** | Galluogi 100-200 o fusnesau a defnyddwyr sector cyhoeddus ym mhob un o siroedd y Gogledd i gymryd mantais o gysylltedd di-wifr uwch erbyn 2030 |
| **Amcan Gwariant 2 Swyddi** | Creu rhwng 130-200 o swyddi newydd yn y Gogledd drwy'r rhaglen erbyn 2036. |
| **Amcan Gwariant 3 GVA** | Creu GVA ychwanegol net o £41m - £62m drwy'r prosiect erbyn 2036. |
| **Amcan Gwariant 4 Buddsoddiad** | Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o rhwng £13m ac £20m drwy'r rhaglen erbyn 2036. |

*Tabl 2 Amcanion Gwariant Prosiect (Portffolio)*

Cytunodd y Bwrdd Prosiect Campysau Cysylltiedig ar 31 Ionawr 2023 yn y SOC ac yng nghyfarfodydd ar y cyd eraill y Bwrdd Prosiect, lle datblygwyd yr OBC, y dylai'r prosiect Di-wifr Uwch dargedu'r canlyniad o alluogi busnesau a defnyddwyr y sector cyhoeddus i fabwysiadu ystod o dechnolegau di-wifr uwch. Daeth y bwrdd i'r casgliad na ddylai'r prosiect gyfyngu ar fuddsoddiad i dechnoleg neu ddiwydiant penodol ac y dylid datblygu cefnogaeth sy'n berthnasol i ystod eang o achosion defnydd o ystyried aeddfedrwydd cymharol isel y ceisiadau yn y rhanbarth.

Mae prif Amcan Gwariant y prosiect wedi esblygu o fersiynau cynharach, gan gynnwys yn Nogfen Sgopio'r prosiect, a gyfeiriodd at leoliadau 'Campws Cysylltiedig'. Gan nad yw'r lleoliadau hyn wedi'u diffinio'n fanwl ar hyn o bryd, byddant yn cael eu diffinio mewn proses flaenoriaethu fel rhan o'r gwaith cyflwyno. Nid yw eu lleoliadau penodol yn ffactor sylweddol wrth nodi'r opsiwn ffafriedig. Yn Achos Busnes y Rhaglen, nodwyd 19 o leoliadau 'Campws' dros dro er mwyn targedu buddsoddiad, ac er bod y safleoedd

hyn o ddiddordeb arbennig o hyd, ystyriodd y bwrdd prosiect ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol y dylid mabwysiadu sgôp agored, heb gyfyngu ar fuddsoddiad i rannau o'r rhanbarth.

### 1.4 Trefniadau Presennol ac Anghenion Busnes

#### 1.4.1 Amcan gwariant 1

- Galluogi 100-200 o fusnesau a defnyddwyr sector cyhoeddus ymhob un o siroedd y Gogledd i gymryd mantais o gysylltedd di-wifr uwch erbyn 2030.

**Trefniadau presennol**

- Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn y rhanbarth yn defnyddio rhwydweithiau sy'n seiliedig ar safonau cynharach technolegau di-wifr ac nid ydynt eto wedi mabwysiadu rhwydweithiau preifat symudol na WiFi 6. Mae'r defnydd o dechnolegau Diwydiant 4.0 yn tyfu, fodd bynnag, mae hyn wedi'i gyfyngu i weithgynhyrchu, yn enwedig gweithgynhyrchwyr mwy.

- Cyfyngir y ddarpariaeth 5G fasnachol yn ôl graddfa a phresenoldeb gweithredwr yn y rhanbarth er ei fod yn tyfu'n flynyddol.

**Anghenion busnes**

- Nid oes rhaglen barhaus o gymorth a ariennir yn gyhoeddus i fusnesau sy'n darparu arweiniad penodol ar dechnolegau. Mae risg ynghlwm â buddsoddi mewn technolegau rhwydwaith arloesol heb wybodaeth drylwyr o fuddion a goblygiadau mabwysiadu.

- Mae angen ffynonellau parhaus o hyfforddiant perthnasol yn y rhanbarth i gefnogi twf gweithlu medrus y rhanbarth. Gan nodi bod disgwyl i dwf yn y broses o fabwysiadu'r technolegau di-wifr uwch diweddaraf a newydd fod yn raddol, mae'n hanfodol bod y ddarpariaeth hyfforddi hon yn rhywbeth tymor hir ac yn ymateb i ofynion newidiol yn unol â newidiadau yn y dechnoleg.

- Gall buddsoddiadau newydd a'r newid systemau presennol fod yn gostus. Mae'r amodau economaidd presennol (cyfraddau llog uchel, costau staffio sy'n cynyddu, chwyddiant ac ati) yn cyfyngu buddsoddiad busnes i ofynion hanfodol.

- Ar gyfer technolegau rhwydwaith di-wifr ac eithrio 5G, h.y., achosion defnydd mwy lleol, safle-benodol sy'n cynnwys, er enghraifft WiFi 6, gall yr angen am ymyrraeth fod yn berthnasol i leoliadau mwy amrywiol nad ydynt o reidrwydd yn cynnwys galw cronnus (h.y., safleoedd busnes diwydiannol yn hytrach nag ystadau diwydiannol).

#### 1.4.2 Amcan Gwariant 2

- Creu 130-200 o swyddi newydd yn y Gogledd drwy'r rhaglen erbyn 2036.

**Trefniadau presennol**

- Bydd cyflogaeth o fewn sefydliadau sy'n defnyddio neu sydd â'r potensial i ddefnyddio technolegau rhwydwaith di-wifr yn cynnwys staff â chyfrifoldeb uniongyrchol dros osod a rheoli rhwydweithiau, h.y. Staff TGCh. I sefydliadau llai, efallai na fydd hon yn rôl benodol ond yn rhan o waith staff sy'n

ymgymryd â thasgau eraill. Ar gyfer sefydliadau mwy, bydd y gwaith yn cael ei reoli gan dimau arbenigol sydd ag arbenigedd ar draws ystod o arbenigeddau TGCh. Lle mae rhwydweithiau'n cefnogi swyddogaethau penodol, er enghraifft prosesau gweithgynhyrchu, gall nifer ac ystod y rolau swydd a gefnogir (yn hytrach na'r hyn a grëir yn achos staff TGCh) fod yn sylweddol. Lle mae effeithlonrwydd yn arwain at dwf busnes, dylid disgwyl cynnydd cyffredinol yn y gweithlu mewn pryd wrth i werthiant a nifer cynhyrchedd gynyddu, er bod cydbwysedd y mathau o swyddi yn symud tuag at staff TGCh medrus.

**Anghenion busnes**

- Ni fydd creu swyddi uniongyrchol ond yn cael ei gyflawni os oes ymgeiswyr cymwys addas i ymgymryd â rolau newydd, naill ai drwy recriwtio staff newydd neu hyfforddi staff presennol. Fel yr eglurir o dan yr anghenion busnes blaenorol, bydd angen darpariaeth hyfforddiant parhaus ac adweithiol yn y rhanbarth, gan adeiladu ar y rhaglenni perthnasol presennol megis ADAPTS a ffatri sgiliau Medru.

- O'i adborth arolwg, casglodd Adroddiad Terfynol Dadansoddiad Sgiliau Digidol Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru 2024[7] mai'r prif ofynion oedd darparu cynnyrch/gwasanaeth, dadansoddi data, a rhaglennu, ynghyd â pheirianneg data a chwmwl a seibr-ddiogelwch. Soniwyd am ddatblygiad Power BI, arweinyddiaeth ddigidol, a datblygiad pentwr llawn ar wahân. Lluniodd yr adroddiad 8 argymhelliad i fynd i'r afael â'r heriau a adroddwyd gan gyflogwyr wrth ddiwallu eu gofynion sgiliau a bydd yr RSP yn bwrw ymlaen i weithredu ar y rhain.

### 1.4.3 Amcan gwariant 3 a 4

- Creu GVA ychwanegol net o £41m - £62m drwy'r prosiect erbyn 2036.
- Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o rhwng £13m ac £20m drwy'r rhaglen erbyn 2036.

**Trefniadau presennol**

- Mae gan ogledd Cymru GVA presennol o tua £15.6bn (GVA B) a gweithgynhyrchu ac iechyd yw'r diwydiannau sengl mwyaf sy'n cyfrannu at hyn. Mae GVA wedi'i bwysoli tuag at Sir y Fflint a Wrecsam sy'n cynhyrchu 53% o GVA y rhanbarth, gyda'u diwydiannau gweithgynhyrchu yn cael effaith sylweddol. Mae'r cyfraniadau i GVA ar draws yr economi yn cael eu darparu yn Atodiad H.

- Mae GVA yn ddangosydd macro-economaidd ac mae'n cael ei effeithio gan ystod eang o ffactorau. Ar y sail hon, nid yw'n bosibl priodoli newidiadau a welwyd mewn GVA rhanbarthol yr adroddir amdanynt gydag ymyriadau penodol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd buddsoddiad mewn 5G yn arwain at gynnydd mewn GVA e.e. DCMS 2021 [8] *Rhagwelir y bydd buddion economaidd y DU yn £41bn-£159bn yn gronnol dros 2021-35 yn dibynnu ar y senario enghreifftiol. Rhagwelir y bydd gwerth ychwanegol gros blynyddol y DU 0.4% -1.6% yn uwch yn 2035 o ganlyniad i dechnoleg 5G.*

---

[7] rspnorth.wales/publications

[8] Gwireddu Buddion 5G (publishing.service.gov.uk)

- Mae DCMS (2021) yn rhagweld dau senario twf GVA ledled y DU, i) 'technoleg pwrpas cyffredinol (GPT) - mabwysiadu gan bron pob cwmni a ii) technoleg ddigidol uwch (ADT) - mabwysiadu yn amrywio yn ôl math a maint y cwmni

- Ar gyfer GPT, amcangyfrifwyd twf GVA Cymru o bron i 1.6% erbyn 2035 a 0.37% ar gyfer twf ADT yn yr un cyfnod (gwaelodlin 2021). Yn seiliedig ar yr amcangyfrif hwn, mae graddio sylfaenol i ogledd Cymru yn awgrymu cynnydd o £261m ar gyfer GPT a £57.9m ar gyfer ADT erbyn 2035.

- Gyda'r prosiect Di-wifr Uwch, ystyrir mai mabwysiadu 'technolegau digidol uwch' yn ehangach yn y senario ADT sydd fwyaf perthnasol ac mae'n unol â'r effaith GVA amcangyfrifedig yn amcan gwariant y prosiect o £41m-£62m.

- Ystyrir bod buddsoddiad presennol mewn technolegau di-wifr uwch yn ddibwys yn y tymor byr a chanolig (erbyn canol cyfnod y Cynllun Twf). Fodd bynnag, mae'n amhosib rhagweld beth yw'r senario 'Busnes fel Arfer' ar gyfer y rhanbarth tu hwnt i hyn. O ystyried yr heriau economaidd parhaus yn y DU ac yn fyd-eang, (lefelau uchel chwyddiant a chyfraddau llog) ystyrir felly bod gwaelodlin buddsoddiad yn sero er diben yr achos busnes hwn.

Anghenion busnes

- Ni ystyrir bod y rhwystrau i fabwysiadau seilwaith di-wifr yn y Gogledd yn unigryw ac maent yn gyson â'r rhai a wynebir gan sefydliadau ar draws y DU. Ar y sail hon, cyflwynir casgliadau'r astudiaeth DCMS (2021) fel anghenion busnes o ran yr amcan gwariant hwn. Mae amcan gwariant GVA a chreu swyddi yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r amcan gwariant o gynyddu mabwysiadu gan fusnesau (amcan gwariant cyntaf) ac felly mae anghenion busnes pob un yn gyffredin.

- Er ei bod yn gyfyngedig i dechnoleg 5G gellir ystyried yr astudiaeth yn berthnasol yn fras i bob 'technoleg ddi-wifr uwch'. Nododd yr astudiaeth sawl rhwystr allweddol i fabwysiadu 5G a allai, os na fydd y farchnad a/neu drwy gamau rhagweithiol y Llywodraeth yn mynd i'r afael â nhw, naill ai oedi neu arafu mabwysiadu 5G o fewn rhai neu'r holl grwpiau defnyddwyr 5G. Mae **rhwystrau macro** yn rhwystrau traws-farchnad sy'n cynnwys trawstoriad o sawl maes/grŵp defnyddwyr a chymwysiadau 5G.

  i. Parodrwydd i dalu am wasanaethau 5G gan unigolion a busnesau
  ii. Diffyg ymwybyddiaeth ynghylch addasrwydd 5G a/neu'r buddion y bydd 5G yn eu darparu
  iii. Ansicrwydd y diwydiant symudol dros fuddsoddiad 5G pellach o fewn rhwydweithiau cyhoeddus cyn i'r galw gael ei sefydlu.

- Mae yna hefyd ymwybyddiaeth sylweddol yn y farchnad o ran yr hyn y gallai '5G' ei gyflawni. Fodd bynnag, mae ystod gymhleth o faterion gweithredu y tu ôl i'r weledigaeth 5G, ac mae rhai defnyddwyr 5G o leiaf (**yn enwedig busnesau llai) yn wynebu her drwy beidio â meddu ar y gallu a'r sgiliau mewnol** sydd eu hangen i sefydlu ac integreiddio cysylltedd 5G i systemau busnes presennol.

- Efallai na fydd busnesau nad telathrebu yw eu gweithgaredd craidd mewn sefyllfa dda ychwaith i yrru'r nodweddion 5G ehangach a'r agenda esblygu. **Felly, mae rôl allweddol i arbenigwyr datrysiadau 5G (boed hwy'n werthwyr 5G mawr, integreiddwyr system neu'n gwmnïau TG mawr) ddarparu gwasanaethau cefnogi proffesiynol i gwmnïau llai.**

**Felly, crynhoir yr anghenion busnes fel:**

- Cymorth ariannol gyda buddsoddiad cychwynnol gan ddefnyddwyr rhanbarthol a/neu'r MNOs fel cyflenwyr
- Cefnogaeth i MNOs gynyddu rhwydweithiau cyhoeddus 5G
- Mynd i'r afael â bylchau gwybodaeth a sgiliau

## 1.5 Sgôp a Gofynion Gwasanaeth

| Ystod | Craidd | Dymunol | Dewisol |
|---|---|---|---|
| **Sgôp posib** | | | |
| **Gweithgaredd** | Buddsoddiad cyfalaf uniongyrchol ar gyfer sefydliadau (defnyddwyr) | Buddsoddiad cyfalaf uniongyrchol i ddarparwyr gwasanaethau *ynghyd â Chraidd* | Hybu'r galw a chefnogaeth uniongyrchol i ddefnyddwyr (yn amodol ar fforddiadwyedd refeniw) *yn ogystal â Dymunol* |
| **Lleoliad** | Lleoliadau wedi'u targedu sy'n cynnal defnyddwyr 'ADT' / mabwysiadwyr cynnar yn unig | Lleoliadau a bennir yn ôl y galw gan ddefnyddwyr ADT neu GPT | Heb fod yn gyfyngedig gan leoliad neu ddefnyddiwr targed |
| **Gofynion gwasanaeth allweddol** | Rheoli cronfa buddsoddi cyfalaf | Cyflwyno / hyrwyddo gwasanaeth hybu'r galw *ynghyd â Chraidd* | Darparu gwasanaeth cefnogi gweithredol uniongyrchol *yn ogystal â Dewisol* |

Ffigwr 1 Sgôp Posibl a Gofynion Gwasanaeth1

## 1.6 Buddion


Mae rhai enghreifftiau o fuddion tebygol i'w gweld isod. Mae model rhesymeg prosiect (Ffigwr 4) yn dangos y cysylltiadau o amcanion gwariant y prosiect hyd at y buddion a'r effaith. Mae adroddiad 2021 DCMS yn darparu map rhesymeg o fabwysiadu 5G a'r buddion (Atodiad A) sy'n rhannu'r rhain yn fuddion i ddefnyddwyr masnachol a domestig. Mae sgôp y prosiect yn canolbwyntio ar y cymwysiadau ar gyfer defnyddwyr masnachol.Ffigwr 3 Model Rhesymeg y Prosiect

| Categori Buddion (Math) | Buddiolwr | Dosbarth budd (Mesur) | Dosbarthiad budd |
|---|---|---|---|
| Gwella effeithlonrwydd | e.e., Sefydliadau gweithgynhyrchu<br><br>Sector cyhoeddus | Amseroedd ymateb penderfyniadau a gwelliannau cynhyrchedd | Budd uniongyrchol y Sector Cyhoeddus (Rhyddhau arian parod)<br><br>Budd ehangach i gymdeithas y DU (buddion arian, yn cynnwys buddion arian parod) |
| Gwell diogelwch – CCTV gwell | e.e., Awdurdodau Lleol, heddlu, y cyhoedd ehangach | Lleihau trosedd<br><br>Canfod a thystiolaeth fwy effeithlon o droseddau | Budd uniongyrchol y Sector Cyhoeddus (Rhyddhau arian parod)<br><br>Budd ehangach i gymdeithas y DU (Meintiol ond dim buddion ariannol yn hawdd) |
| Gwell rheolaeth cadwyn gyflenwi | e.e., Darparwyr nwyddau | Lefelau stoc, cost storio | Budd ehangach i gymdeithas y DU (buddion arian, yn cynnwys buddion arian parod) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwell rheolaeth traffig | e.e., Awdurdodau lleol ac Asiantau Cefnffyrdd, diwydiannau lleol | Lefelau tagfeydd | Budd ehangach i gymdeithas y DU (Meintiol ond dim buddion ariannol yn hawdd) |
| Mwy o gapasiti/ysbryd cystadleuol busnesau | e.e. Busnesau | Newid mewn trosiant, gwerthiannau | Budd ehangach i gymdeithas y DU (buddion arian, yn cynnwys buddion arian parod) |

*Ffigwr 2 Prif fanteision prosiect disgwyliedig*

*Ffigwr 3 Model Rhesymeg y Prosiect*



## 1.7 Risgiau

Datblygwyd cofrestr risg drwy'r broses achos busnes i gefnogi'r OBC ac fe'i darperir yn Atodiad E.

**Risgiau Busnes**

- Efallai na fydd gan y prosiect gefnogaeth rhanddeiliaid gwleidyddol
- Gall y prosiect a'i ffocws rhannol ar 5G ddenu cyhoeddusrwydd anffafriol neu wrthwynebiad cyhoeddus

**Risgiau Gwasanaeth**

- Efallai na fydd awydd masnachol am y prosiect. Efallai na fydd gweithgareddau'r prosiect yn ddigon i ddod â gwasanaethau di-wifr uwch i ogledd Cymru.
- Efallai na fydd galw gan ddefnyddwyr am ddi-wifr uwch ar hyn o bryd. Efallai na fydd busnesau'n barod i ddefnyddio di-wifr uwch, er enghraifft oherwydd nad yw pileri eraill Diwydiant 4.0 ar waith eto.
- Efallai na fydd unrhyw ffordd ymarferol o brynu cysylltedd rhwydwaith di-wifr uwch cyhoeddus.
- Efallai na fydd proffil cyfalaf yn unig cyllid Uchelgais Gogledd Cymru yn briodol i'r ymyrraeth a ddymunir. Efallai y bydd y camau gweithredu gorau ar gyfer y pwrs cyhoeddus yn gofyn am ryw elfen o gyllid refeniw.

**Risgiau Allanol**

- Gall y farchnad esblygu fel nad oes angen am ymyrraeth yn ymwneud â'r galw.
- Gall cadwyni cyflenwi byd-eang gael eu heffeithio'n andwyol, gan leihau argaeledd cydrannau allweddol
- Chwyddiant a chyfraddau llog cynyddol / ansicrwydd economaidd

## 1.8 Cyfyngiadau a Dibyniaethau

- Gall darparu gwasanaethau di-wifr uwch fod yn destun Rheoliadau Contractau Cyhoeddus a'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau a deddfwriaeth arall.
- Gall polisïau Uchelgais Gogledd Cymru, gan gynnwys yr egwyddorion caffael a'r fethodoleg carbon a bioamrywiaeth, gyfyngu ar faint y gellir ei gyflawni.
- Efallai y bydd lefel y galw am rwydweithiau di-wifr uwch yng Ngogledd Cymru yn uwch na'r hyn y gall y cyllid sydd ar gael ei ddiwallu.
- Efallai y bydd angen cyllid refeniw i gefnogi rhai elfennau o'r prosiect. Gan mai Cyfalaf yw Uchelgais Gogledd Cymru yn bennaf, gallai hyn fod yn gyfyngiad.

Mae'r dibyniaethau mewnol ac allanol a ganlyn wedi'u nodi:

- Bydd graddfa'r prosiect yn swyddogaeth o lefel y galw y gellir ei ysgogi ar gyfer mabwysiadu di-wifr uwch.
- Gallu cyflenwyr i ddiwallu anghenion sefydliadau ar draws y rhanbarth.

## 2. Achos Economaidd

### 2.1. Dimensiynau, Mathau ac Amrywiadau

Adolygwyd yr arfarniad opsiynau gan Fwrdd Prosiect ar y cyd Campysau Cysylltiedig a Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2023. Dangosir y Dimensiynau, Mathau ac Amrywiadau a nodwyd ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch isod.

| DRef | Dimension | Type | Notes | Variants | Valid Intermediates |
|---|---|---|---|---|---|
| 1a | Scope (What) | Technology | Technologies in scope | 4 | 1 |
| 1b | Scope (What) | Network Type | Types of network, public or private, or both | 5 | 1 |
| 1c | Scope (What) | Activity | Types of activities that can be undertaken e.g. build, skills, or enablement | 8 | 3 |
| 1d | Scope (What) | Location | Whethe to specify location | 3 | 1 |
| 2a | Solution (How) | Intervention Type | Methods of deploying the intervention funding | 6 | 2 |
| 2b | Solution (How) | Solution Ownership | Parties who may own the solution | 4 | 2 |
| 3 | Delivery (Who) | Who | What organisations might deliver the solution | 5 | 2 |
| 4 | Implementation (When) | When | When the solution could be deployed | 3 | 1 |
| 5 | Funding | Funding | How the solution could be funded | 4 | 1 |

**Ffactorau Llwyddiant Hanfodol**

- **CSF1: CYSONDEB STRATEGOL:** Mae'r opsiwn yn cefnogi cyflawni amcanion economaidd strategol Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru, gan gynnwys GVA, creu swyddi, a mewnfuddsoddiad.
- **CFS2: GWNEUD Y MWYAF O WERTH AM ARIAN:** Mae'r opsiwn yn darparu gwerth tymor hir am arian i'r pwrs cyhoeddus o ran costau, buddion, a risgiau – budd net.
- **CSF3: MODD EI GYFLAWNI YN Y FARCHNAD:** Gall cyflenwyr ddarparu'r gwasanaethau gofynnol; apelio i'r ochr gyflenwi.
- **CSF4: FFORDDIADWY:** Mae cost yr opsiwn yn fforddiadwy drwy ffynonellau cyllid sydd ar gael.
- **CSF5: CYRAEDDADWY:** Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru y capasiti a'r gallu i gyflawni'r opsiwn**.**
- **CSF6: YN CEFNOGI** TARGEDAU AMGYLCHEDDOL Uchelgais Gogledd Cymru ar leihau carbon a gwella bioamrywiaeth

### 2.2. Canlyniad Asesu Rhestr Hir – nodi'r Rhestr Fer

O restr hir o 28, rhoddwyd 4 Opsiwn ar Restr Fer, tri wedi'i bennu gan y fethodoleg, ac un oherwydd ei fod yn sgorio'n dda yn erbyn y CSFs a'r Amcanion Gwariant.

Yr Opsiynau ar y Rhestr Fer yw:

- **OP1: Busnes fel Arfer** - Dim Ymyrraeth Uchelgais Gogledd Cymru.

- **OP2: Gwneud y Lleiafswm**: Prynu datrysiadau WiFi6, 6E gan gyflenwr sengl, cwsmer yn gor-uchwylio'r cyflawniad. Uchelgais Gogledd Cymru yn unig sy'n ariannu.

- **OP3: Y Ffordd Ymlaen a Ffafrir**: Ariannu WiFi 6/6E, 5G mmWave a thechnolegau di-wifr uwch eraill gyda grant yn ôl gofynion, wedi'i gefnogi drwy hybu'r galw a hyfforddiant, *ei reoli gan Uchelgais Gogledd Cymru,* perchnogaeth datrysiad i'w ddiffinio. Ffynonellau ariannu lluosog, gan gynnwys adennill a mecanweithiau bytholwyrdd eraill.

- **OP4: Opsiwn Canolradd** : Ariannu WiFi 6/6E, 5G mmWave a thechnolegau di-wifr uwch eraill gyda grant yn ôl gofynion, wedi'i gefnogi drwy hybu'r galw a hyfforddiant, *ei reoli gan y cws-mer,* perchnogaeth datrysiad i'w ddiffinio. Ffynonellau ariannu lluosog, gan gynnwys adennill a mecanweithiau bytholwyrdd eraill.

| **Dimension** | **OP1: BAU** | **OP2: Do minimum** | **OP3: Preferred Way Forward** | **OP10: Intermediate Option** |
|---|---|---|---|---|
| 1a Scope (What) Technology | 1a.1 Market dictates technical solution | 1a.2 WiFi6/6E | 1a.4 Market proposes appropriate technical solution for requirements | 1a.4 Market proposes appropriate technical solution for requirements |
| 1b Scope (What) Network Type | 1b.1 Market dictates network type | 1b.2 Market dictates network type according to requirement | 1a.5 Public and Private networks delivered according to ANW requirements | 1a.5 Public and Private networks delivered according to ANW requirements |
| 1c Scope (What) Activity | 1c.1 No ANW activity | 1c.2 Demand stimulation | 1c.6 Equipment and commissioning, demand stimulation, and skills and training | 1c.6 Equipment and commissioning, demand stimulation, and skills and training |
| 1d Scope (What) Location | 1d.1 No location specified | 1d.2 Specified location | 1d.3 Any North Wales location | 1d.3 Any North Wales location |
| 2a Solution (How) Intervention Ty | 2a.1 Do not deploy ANW funds for solutions | 2a.2 Buy one solution for all use cases from a single supplier | 2a.6 Fund applications that meet criteria with grant or voucher | 2a.6 Fund applications that meet criteria with grant or voucher |
| 2b Solution (How) Solution Owner | 2b.1 Market determines solution ownership | 2b.2 Supplier owns the solution | 2b.1 Market determines solution ownership | 2b.1 Market determines solution ownership |
| 3 Delivery (Who) Who | 3.1 Market delivers | 3.2 Supplier Delivery, customer oversight | 3.3 Supplier Delivery, ANW oversight | 3.2 Supplier Delivery, customer oversight |
| 4 Implementation (When) When | 4.1 Market sets deployment timescale | 4.2 Supplier sets deployment timescales within criteria set by ANW and Customer | 4.2 Supplier sets deployment timescales within criteria set by ANW and Customer | 4.2 Supplier sets deployment timescales within criteria set by ANW and Customer |
| 5 Funding Funding | 5.1 Funded by others | 5.2 ANW funding | 5.4 Multiple funding sources | 5.4 Multiple funding sources |
| Carbon & Biodiversity Impact | Limited ability to influence C&B | Some limitations on scope to manage C&B impacts | Good scope to manage C&B | Some limitations on scope to manage C&B impacts |
| **Shortlisting Rationale:** | Always Carry Forward | Always Carry Forward | Always Carry Forward | Carry Forward |
| **Description** | BAU: Customers and Suppliers deploy advanced wireless with no ANW involvement. | Do Minimum: Buy WiFi 6 solutions from a single supplier, customer oversees delivery. ANW funding only. | PWF: Grant fund WiFi6/5G according to requirements, supported by demand stimulation and training, managed by ANW, solution ownership to be defined, Multiple sources of funding | Intermediate Option: Grant fund WiFi6/5G according to requirements, supported by demand stimulation and training, managed by customer, solution ownership to be defined. Multiple sources of funding |

## 2.3. Dewis yr Opsiwn Ffafriedig

I ddewis yr Opsiwn Ffafriedig, derbyniodd pob Opsiwn ar y Rhestr Fer asesiad o gostau dosbarthu, risg ariannu, buddion, gan gymhwyso rhagfarn optimistiaeth.

Dengys y Gwerth Cymdeithasol Presennol Net ar gyfer yr opsiynau rhestr fer yn y tabl isod. Darperir yr asesiad manwl yn Atodiad B: CC Di-wifr Uwch NPSV v0 4.

| | Total Costs | NPSV |
|---|---|---|
| OP1 BAU | £ 145,200 | -£ 112,384 |
| OP2 Do Minimum | £ 635,755 | £ 303,568 |
| OP3 Preferred Way Forward | £ 20,046,891 | £ 23,691,658 |
| OP10 Intermediate Option | £ 20,172,891 | £ 23,584,005 |

Ar gyfer pob opsiwn, amcangyfrifir y costau gweithredu a gweithredu amcangyfrifedig. Maent wedi'u chwyddo 20% i ystyried tueddiad optimistiaeth yn eu hamcangyfrifon. Dewiswyd 20% i adlewyrchu y gallai costau datblygu'r cynllun gael eu tanbrisio. Bydd lefel y gwariant yn cael ei gyfyngu gan y gyllideb, fel y gellir disodli prosiectau cost uchel annisgwyl gyda phrosiectau cost isel. Nid yw'r tueddiad optimistiaeth yn gwahaniaethu rhwng yr opsiynau ar hyn o bryd.

Ar gyfer risgiau pob opsiwn y gellir eu lliniaru, mae cost y mesurau lliniaru yn cael ei luosi gan debygolrwydd y risg i ddarparu cost lliniaru ariannol disgwyliedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth ddogfennol ar gyfer buddion yn ansoddol, gydag ychydig iawn o fesurau tryloyw o werth ariannol y buddion. Fodd bynnag, bydd amodau'r cynllun grant yn nodi meini prawf ar gyfer buddion economaidd, gan sicrhau bod y prosiect yn cyflawni gwerth.

Mae'r buddion ar gyfer yr NPSV yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod sefydliadau angen cyfnod ad-dalu o tua 3 blynedd ar gyfer buddsoddiadau sy'n hybu gwelliannau cynhyrchedd, ac y bydd gan y datrysiadau a weithredir fywyd defnyddiol o 10 mlynedd, fel y bydd 7 mlynedd o fuddion yn cael eu dal gan y buddiolwr ar ôl i'r buddsoddiad cychwynnol gael ei adfer. Rydym yn tybio ymhellach y bydd yr arbedion cynhyrchedd hynny yn cael eu trosoli gan y buddiolwr, gan eu hail-fuddsoddi i ychwanegu 10% at eu gwerth bob blwyddyn.

Mae'r NPSV ar gyfer pob opsiwn yn cael ei gyfrifo o gyfanswm y costau a'r buddion, wedi'i addasu gan Ddatchwyddwr y GDP a'r Gyfradd Ffafriaeth Amser Gymdeithasol yn ôl methodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF.

### 2.4. Cymhareb Budd Cost

Y Gymhareb Budd Cost ar gyfer yr Opsiwn Ffafriedig dangosol yw 280% ar gyfer bywyd 10 mlynedd amcangyfrifedig yr ymyrraeth. Dangosir y Gymhareb Budd Cost ar gyfer yr Opsiynau ar y rhestr fer yn y tabl isod.

| | Total Costs | Total Benefits | BCR |
|---|---|---|---|
| OP1 BAU | £ 145,200 | £ - | 0.0 |
| OP2 Do Minimum | £ 635,755 | £ 1,300,000 | 2.0 |
| OP3 Preferred Way Forward | £ 20,046,891 | £ 61,906,953 | 3.1 |
| OP10 Intermediate Option | £ 20,172,891 | £ 61,906,953 | 3.1 |

### 2.5. Opsiwn Ffafriedig

Yr Opsiwn Ffafriedig yw OP3, a gadarnhawyd gan Fwrdd y Prosiect. Mae'r Opsiwn Ffafriedig yn galw am ystod o weithgareddau:

- Sefydlu cynllun grant hyblyg i ariannu'r broses o fabwysiadu datrysiadau di-wifr uwch
- Sicrhau cyllid ychwanegol i gynyddu cronfeydd Uchelgais Gogledd Cymru.
- Goruchwylio gweithrediad datrysiadau di-wifr uwch a hybu gwireddu buddion

### 2.6. Allbynnau

Bydd yr Opsiwn Ffafriedig yn darparu'r allbynnau a ganlyn:

- Mabwysiadu di-wifr uwch wedi'i alluogi cyn belled ag y bo modd o fewn y gyllideb sydd ar gael
- Cyllid Uchelgais Gogledd Cymru o thua £19m wedi'i ddefnyddio

Bydd union sgôp a lefel y ddarpariaeth ddi-wifr uwch yn cael eu pennu mewn cyfnod dylunio cychwynnol y cynllun grant.

### 2.7. Dadansoddiad Sensitifrwydd

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn ystyried o faint y ffafrir yr Opsiwn Ffafriedig, a'r ffactorau a allai beri i opsiwn arall gael ei ffafrio yn lle hynny.

Mae'r Opsiwn Ffafriedig (OP3) yn gadarn iawn yn erbyn opsiynau OP1 Busnes fel Arfer ac OP2 Gwneud y Lleiafswm gan ei fod yn cyflawni lefel mwy o fuddion.

Dim ond yn lefel is y trosolwg cyflawni a ddarperir gan Uchelgais Gogledd Cymru, a'i lefel risg uwch cyfatebol, y mae OP10 yn wahanol i'r Opsiwn Ffafriedig. Felly, mae'r Opsiwn Ffafriedig yn sensitif i werth y risg hon. Ffafrir OP10 os yw'r gost o liniaru'r risg cyflawni yn uwch nag effaith gymedrol y risg ei hun.
Fodd bynnag, gan fod y ddau Opsiwn yn debyg iawn, gellir gwneud dewisiadau ynghylch lefel y trosolwg i'w ddarparu yn y cyfnod cyflawni. Dylid parhau i adolygu'r sensitifrwydd hwn wrth gyflawni'r prosiect i sicrhau bod yr Opsiwn Ffafriedig yn parhau i ddarparu gwell gwerth na gwneud dim.

## 3. Achos Masnachol

### 3.1. Strategaeth gaffael

Bydd y prosiect yn cynnwys dylunio a chyflwyno cynllun grant a sefydliadau buddiolwyr grantiau yn prynu technolegau di-wifr uwch. Felly, mae dwy ffrwd gaffael o fewn y prosiect dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru ac sy'n cael eu harwain gan fuddiolwyr.
Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn:

- Caffael cefnogaeth arbenigol i ddylunio'r cynllun grant
- Dewis buddiolwyr grant drwy broses ymgeisio

Bydd buddiolwyr yn gyfrifol am gaffael sgôp yr offer a gymeradwywyd mewn ceisiadau grant.

### 3.2. Cefnogaeth arbenigol

Gellir caffael gwasanaethau dylunio cynllun grant drwy System Brynu Ddeinamig Gwasanaethau Masnachol y Goron RM6322 (Dyddiad gorffen 27/11/2030). Mae gan hyn chwe chategori gan gynnwys

1. Dylunio a Datblygu: canllawiau rhaglen, elfennau dylunio, ffurflenni cais a phrosesau, monitro ac adrodd, ymgynghoriaeth arbenigol, systemau TG.

2. Gwasanaethau Gwerthuso: dylunio systemau gwerthuso cadarn, mesur effaith a chanlyniadau, cynnal ymweliadau safle, gwerthuso gwersi a ddysgwyd.

Lle nad yw'n bosib dewis darparwr gwasanaeth drwy'r DPS, cynhelir cystadleuaeth tendr agored trwy borth GwerthwchiGymru.

### 3.3. Dewis buddiolwyr

Ar y cam OBC, disgwylir y bydd y Bwrdd Prosiect a gefnogir gan y grŵp ymgynghorol yn goruchwylio asesiadau grant ac yn gwneud argymhellion i'w cymeradwyo naill ai i'r Bwrdd Rhaglen, y Bwrdd Portffolio neu'r Bwrdd Uchelgais yn unol â gwerth y dyfarniad.

### 3.4. Caffael gan fuddiolwyr

Bydd gofyn i fuddiolwyr y sector cyhoeddus a’r sector preifat ymgymryd â'u caffael eu hunain o ran ynwyddau a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer eu prosiectau penodol. Yn achos sefydliadau'r sector cyhoeddus, byddant yn caffael yn unol ag arferion safonol e.e. tendr agored, defnyddio fframweithiau ac ati ac yn unol â'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus. Lle bo'n briodol, gall buddiolwyr sydd â gofynion cyffredin ddilyn caffael cydweithredol sy'n cynnig gwell gwerth am arian, arbedion maint a gostyngiadau mewn costau caffael.

Bydd gofyn i'r holl gaffael fod yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru sy'n disgrifio themâu ac egwyddorion caffael y rhanbarth, gan gynnwys mewn perthynas â charbon a bioamrywiaeth a gwerth cymdeithasol.

### 3.5. Gofynion ac allbynnau gwasanaethau

#### Dyluniad y cynllun grantiau

Bydd gwasanaeth dylunio'r cynllun grant yn cael ei bennu i sicrhau bod yr Amcan Gwariant o 'alluogi defnyddwyr busnes a sector cyhoeddus dethol i fanteisio ar gysylltedd di-wifr uwch' yn cael ei gyflawni.

Dylai dyluniad y cynllun gynnwys asesiad o nodweddion busnesau, gan gynnwys maint, sector, galw technegol, sgiliau ac ati, ar draws y rhanbarth, fel y gellir dylunio galwadau ariannu i gyflawni gwerth ar draws y rhanbarth.

Bydd meini prawf y cynllun grant yn cynnwys:

- dangos gofyn clir am ddatrysiadau di-wifr uwch (ni fydd defnyddio rhwydweithiau symudol sydd ar gael i'r cyhoedd yn gymwys)
- dangos budd economaidd clir ar gyfer y cyllid sy'n fwy na lleiafswm trothwy'r cynllun
- rhwymedigaethau ar fuddiolwyr grantiau i weithredu'r seilwaith i ddarparu lefel gytunedig o ddarpariaeth rhwydwaith am gyfnod diffiniedig
- rhwymedigaethau mewn perthynas â charbon a bioamrywiaeth yn unol â methodoleg Uchelgais Gogledd Cymru
- Uchafswm/isafswm gwerthoedd grant, gyda'r posibilrwydd o geisiadau mwy mewn rhai galwadau, yn enwedig yn y rowndiau ariannu cyntaf
- gofyniad arian cyfatebol o thua 50% mewn arian parod neu mewn nwyddau, yn amodol ar gydymffurfiad Rheoli Cymorthdaliadau
- ystod eang o gostau cymwys sy'n gostau di-wifr uwch cyfalafol, a gallent gynnwys cyfarpar, peirianneg a chostau gosod, ond nid costau gweithredu'r datrysiad
- rhestr glir o'r costau a'r taliadau cymwys pan ddangosir tystiolaeth ohonynt
- darpariaethau adennill i adennill arian grant os bydd telerau'r dyfarniad yn cael eu torri'n ddiweddarach
- rhwymedigaethau ar gyfer datblygu a rhoi cyhoeddusrwydd i achosion defnydd gan Uchelgais Gogledd Cymru
- methodoleg sgorio, gan gynnwys asesu effaith economaidd o bosib

## 3.6. Gwerth Cymdeithasol

Yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru, bydd yn ofynnol i fuddiolwyr grantiau geisio Gwerth Cymdeithasol gan gyflenwyr drwy eu caffael. Bydd y gofyn hwn yn amod cyn cymeradwyo grant.

## 3.7. Rheoli Cymorthdaliadau

Gydag amrywiaeth o achosion defnydd posib a sgôp eang o gymhwysedd i ymgeiswyr, gan gynnwys y sector preifat, dyfernir cyllid naill ai 'ar sail dim cymhorthdal' neu fel cymhorthdal a ganiateir yn unol â'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r dyfarniadau yn gymorthdal-iadau a ganiateir.

Pan ddyfernir cymhorthdal, rhagwelir y bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu fel Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA), o fewn y trothwy gwerth gan nodi'r cyfyngiad cronni gyda dyfarniadau blaenorol. Lle nad yw MFA yn briodol, bydd dull addas yn cael ei ystyried gan gynnwys

- Cynllun Cymorth Buddsoddi Cyfalaf a Chymorth Cyflogaeth Llywodraeth Leol Cymru (SA.60356)
- Llwybr Symlach Twf Lleol y DU
- Llwybr Symlach Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd y DU

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cael cyngor rheoli cymhorthdal manwl pan fydd y cynllun grant yn cael ei ddatblygu i gadarnhau sgôp y meini prawf a sicrhau cydymffurfiaeth ag MFA a'r llwybrau posib eraill a restrir uchod.

## 3.8. Dyraniad Risg

Dosrannu risg - dylunio a gweinyddu cynllun grant

| **Categori Risg** | **Dyraniad posib** | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyhoeddus** | **Preifat** | **Wedi'i rannu** |
| Risg dylunio | | | |
| Risg trosglwyddo a gweithredu | | | |
| Risg argaeledd a pherfformiad | | | |
| Risg gweithredu | | | |
| Risgiau terfynu | | | |
| Risgiau rheoli | | | |
| Risgiau ariannu | | | |
| Risgiau deddfwriaethol | | | |
| Risgiau eraill i'r prosiect | | | |

Tabl 3 Dosrannu risg (Caffael Uchelgais Gogledd Cymru)1

## 3.9. Dosrannu risg - cyflawniad buddiolwyr

Bydd risg sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad yn cael ei ddosrannu'n gyfan gwbl i fuddiolwyr a'i gadarn-hau yn y Cytundebau Cyllid Grant. Er mwyn rheoli'r risg i Uchelgais Gogledd Cymru o danberfformio

gan fuddiolwyr, bydd y grantiau'n daladwy fesul cam, mewn ôl-ddyledion ac yn seiliedig ar dystiolaeth o wariant cymwys a dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

### 3.10. Mecanwaith codi tâl, math o gontract ac ymdriniaeth gyfrifeg

Mae'r prosiect yn bwriadu gwneud taliadau am ei allbynnau a'i wasanaethau allweddol dros oes y contractau fel y nodir yn y tablau isod. Yn ystod y cyfnod cyn cyflawni, bydd dyluniad y cynllun grant yn cael ei dalu yn unol â phris sefydlog (contract Uchelgais Gogledd Cymru) a bydd cyngor cyfreithiol allanol lle bo angen yn cael ei dalu fel cyfradd y dydd (a elwir o fframwaith presennol).

Bydd cyfrifeg y cynllun yn dilyn safonau cyfrifeg perthnasol Cyngor Gwynedd. Bydd y contract gwasanaeth ar gyfer y prosiect yn destun TAW ac yn cael ei adennill yn unol ag ymdriniaeth safonol Cyngor Gwynedd. Bydd y fantolen yn ymddangos yn y broses adrodd a nodir mewn cynllun rheoli'r Cynllun Grant.

### 3.11. Ystyriaethau Achos Masnachol Allweddol ar gyfer y FBC:

- Nodi'r model gweithredu mwyaf addas a'r Corff Atebol ar gyfer y cynllun grant, tybir ar hyn o bryd mai Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd sydd ar y gorwel / Uchelgais Gogledd Cymru fydd hwn.
- Profi'r farchnad o ran y sail cyflenwyr posibl a sgôp y gwasanaethau a gynigir ar gyfer rhedeg cronfa; adnabod darparwyr addas a medrus sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru.
- Archwilio trefniadau partneriaeth posib gyda Banc Datblygu Cymru ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru i ddarparu grant ar y cyd â chynnig benthyciadau SME Banc Datblygu Cymru.
- Cwblhau'r trefniadau cytundebol mwyaf addas ar gyfer adnoddau sy'n cael eu caffael.
- Sicrhau cyngor cyfreithiol ar ddyletswyddau ymddiriedol ac ystyriaethau rheoli cymorthdaliadau sy'n ymwneud â'r cynllun grant

## 4. Achos Ariannol

| **Opsiwn Ffafriedig** - Cynllun grant Di-wifr Uwch |
|---|
| Bydd cronfa £19M yn gweithredu fel cynllun grant hyblyg i ariannu mabwysiadu datrysiadau di-wifr uwch. Bydd y cynllun yn cael ei weinyddu gan Uchelgais Gogledd Cymru dros gyfnod o dair blynedd yn dilyn dyluniad cychwynnol y cynllun gyda rheolaeth prosiect yn cael ei ddarparu gan y noddwr, Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd cam cyntaf y prosiect yn cynnwys dylunio a sefydlu'r cynllun grant ac yna darparu cyllid cyfalaf i sefydliadau'r sector preifat a'r sector cyhoeddus a fydd yn gwneud cais am gyllid yn unol ag amodau a meini prawf cymhwysedd y cynllun. |

Nid yw'n bosibl sefydlu ar hyn o bryd faint o wariant fydd ei angen ar gyfer unrhyw ddatrysiad di-wifr uwch oherwydd bod y cymwysiadau yn gyffredinol yn eu camau cynnar o o aeddfedrwydd yn y DU, a bydd pob rhwydwaith wedi'i deilwra'n unigryw i fanyleb y defnyddiwr. Bydd gwersi a ddysgwyd drwy gyflwyno prosiectau mewn rowndiau ariannu cynharach yn llywio'r rowndiau diweddarach yn well. Bydd Rhaglen Rhanbarthau Arloesi 5G Llywodraeth y DU (2024-25), sy'n rhannu sgôp tebyg, yn llywio dyluniad cychwynnol y cynllun grant a bydd gwerthuso'r rhaglen honno'n cynorthwyo i adolygu meini prawf y cynllun ym mlynyddoedd 2 a

### 4.1. Cyfyngiadau ariannol

- Mae cyllideb o £19.54M yn cael ei dyrannu o brosiect Campysau Cysylltiedig y Cynllun Twf. Mae'r holl waith modelu ar gyfer yr OBC yn seiliedig ar y gyllideb gyfalaf o £19.54M.

- Mae pecyn ariannu'r Cynllun Twf yn gyllid cyfalaf yn unig heb unrhyw gyllid refeniw ar gyfer prosiectau.

### 4.2. Ffynonellau Ariannol

Bydd cyllid cyfalaf y Cynllun Twf yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i sefydlu a rheoli'r cynllun grant drwy gydol y prosiect. Bydd angen cyllid refeniw ar gyfer gweithgareddau i gefnogi'r gwaith dosbarthu, megis hybu'r galw, ymgysylltu â'r farchnad, codi ymwybyddiaeth, hwyluso fforymau i ddod â chwsmeriaid a chyflenwyr ynghyd. Bwriedir i ddyluniad y gronfa gynnwys tâl i ymgeiswyr llwyddiannus dalu costau darparu'r cynllun, yn cynnwys gweinyddu, asesu a hybu'r galw. Bydd dyluniad y cynllun yn nodi cyfradd addas i'w chodi am gymwysiadau yn seiliedig ar y dyfarniad grant a geisir, a disgwylir i hyn fod rhwng 1% a 5%. Bydd angen incwm o'r tâl hwn hefyd i dalu am weinyddu datganiadau o ddiddordeb aflwyddiannus nad ydynt yn mynd ymlaen i geisiadau llwyddiannus. Felly, bydd yn hanfodol bod gofynion cymhwysedd clir a nodir yn y cam mynegi diddordeb yn cael eu dylunio yn y cynllun i sicrhau cyfradd gyfnewid uchel i ddyfarniadau llwyddiannus.

| | | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid | | | | | | |
| 15 | Cyllid CAPEX (Cynllun Twf) | £ 123,900 | £ 4,674,653 | £ 9,808,864 | £ 4,931,732 | £ 19,539,148 |
| 16 | OPEX (Adnodd Rheoli Cymorthdaliadau, PMO Uchelgais Gogledd Cymru) | £ 6,250 | £ - | £ - | £ - | £ 6,250 |
| 17 | OPEX (Ffi weinyddol i ymgeiswyr) | £ - | £ 104,193 | £ 104,193 | £ 104,193 | £ 312,579 |
| 18 | OPEX wrth gefn (PMO Uchelgais Gogledd Cymru) | £ 1,250 | £ 20,839 | £ 20,839 | £ 20,839 | £ 63,766 |
| **19** | **Cyfanswm cyllid** | **£ 131,400** | **£ 4,799,684** | **£ 9,933,895** | **£ 5,056,763** | **£ 19,921,743** |

Tabl 4 Crynodeb o ffynonellau ariannu prosiectau2

### 4.3. Buddsoddiad preifat

Bydd cyfanswm buddsoddiad fesul buddiolwr yn cael ei gadarnhau gyda phob dyfarniad; fodd bynnag, er diben yr achosion Economaidd ac Ariannol, cyfrifir amcangyfrifon yn seiliedig ar ddyfarniadau cyfartalog a gyfatebir gan y buddiolwr ar gyfradd o 50% o gyfanswm y costau. Yn amodol ar amodau dyluniad a Rheoli Cymorthdaliadau'r cynllun, disgwylir i gyfraddau ymyrraeth a gwerth buddsoddiad wedi'i drosoli fesul cais amrywio yn ôl maint y buddion sydd i'w darparu gan yr ymgeisydd, e.e. creu swyddi, cynhyrchedd ac ati.

| | | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Buddsoddiad cyfalaf y sector preifat / sector cyhoeddus (amcangyfrif) | £ - | £ 4,620,053 | £ 9,754,264 | £ 4,877,132 | £ 19,251,448 |

### 4.4. Amcangyfrif o'r Costau Cyfalaf

| | | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf | | | | | | |
| 1 | Dyfarniadau grant | £ - | £ 4,620,053 | £ 9,754,264 | £ 4,877,132 | £ 19,251,448 |
| 2 | Dyluniad y cynllun grantiau | £ 57,750 | £ - | £ - | £ - | £ 57,750 |
| 3 | Costau Staff wedi'u cyfalafu (ANW, rheoli prosiect) | £ 45,500 | £ 45,500 | £ 45,500 | £ 45,500 | £ 182,000 |
| 4 | Wrth Gefn | £ 20,650 | £ 9,100 | £ 9,100 | £ 9,100 | £ 47,950 |
| **5** | **Cyfanswm costau cyfalaf (CAPEX)** | £ 123,900 | £ 4,674,653 | £ 9,808,864 | £ 4,931,732 | £ 19,539,148 |

Tabl 5 Costau Cyfalaf Dangosol

Mae dyfarniad cyfartalog o £75,000 yn cael ei fodelu (gan dybio bod cyfanswm y costau felly yn £150,000 gan gynnwys cyfraniad cyfalaf 50% y buddiolwyr) ond rhagwelir y bydd y cynllun grant yn cael ei ddylunio i wasanaethu sawl categori o werth dyfarniad (h.y. gwobrau bach, canolig a mawr). Nodir yr holl gostau cyfalaf fel rhai sydd ddim yn cynnwys TAW.

### 4.5. Amcangyfrif o Gostau Refeniw

Bydd costau gweithredu nad ydynt yn gymwys fel gwariant cyfalaf yn cael eu talu gydag incwm a gynhyrchir gan y ffi gweinyddu cynllun a delir gan ymgeiswyr llwyddiannus. Ym mlwyddyn 1, bydd yn ofynnol i gostau refeniw gael eu talu gan gyllideb PMO cyn i geisiadau llwyddiannus gael eu prosesu ac mae hyn yn debygol o ymestyn i flwyddyn 2 yn ystod y cyfnod cychwynnol o dderbyn a phrosesu. Wrth i'r cynllun aeddfedu a nifer y ceisiadau gynyddu bydd yr incwm gan ymgeiswyr yn cael ei ddefnyddio i gynnal y gwaith parhaus o gyflawni'r Cynllun hyd at ei gwblhau. Dengys amcangyfrif o gostau refeniw y prosiect yn y tabl isod. Nodir yr holl gostau cyfalaf fel rhai sydd ddim yn cynnwys TAW.

| Oes | | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gweithredu | | | | | | |
| 6 | Adnodd Rheoli Cymorthdaliadau | £ 6,250 | £ - | £ - | £ - | £ 6,250 |
| 7 | Gweithrediad y grant | £ - | £ 22,750 | £ 22,750 | £ 22,750 | £ 68,250 |
| 8 | Asesiad o'r cais | £ - | £ 27,576 | £ 27,576 | £ 27,576 | £ 82,727 |
| 9 | Hybu'r galw | £ - | £ 45,500 | £ 45,500 | £ 45,500 | £ 136,500 |
| 10 | Rheoli rhaglen | £ - | £ 8,367 | £ 8,367 | £ 8,367 | £ 25,102 |
| **11** | **Is-gyfanswm OPEX** | **£ 6,250** | **£ 104,193** | **£ 104,193** | **£ 104,193** | **£ 318,829** |
| 12 | Wrth Gefn | £ 1,250 | £ 20,839 | £ 20,839 | £ 20,839 | £ 63,766 |
| **13** | **Cyfanswm Costau Gweithredu (OPEX)** | **£ 7,500** | **£ 125,032** | **£ 125,032** | **£ 125,032** | **£ 382,595** |

Tabl 6 Costau Refeniw Dangosol

### 4.6. Rhagdybiaethau

- Bydd dyfarniadau grant yn amrywio o ddyfarniadau gwerth isel (tua £10,000) hyd at ddyfarniadau gwerth uwch o £1M+, yn seiliedig ar ystod o geisiadau sydd wedi'u hariannu gan gynlluniau a noddir gan Lywodraeth y DU fel Rhanbarthau Arloesi 5G a'r Rhaglenni Prawf-welyau a Threialon 5G. Mae cynlluniau grant eraill sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn y DU sydd â sgôp cymharol yn dangos bod yr ystod hon yn briodol a dylai'r cynllun ddisgwyl denu ceisiadau cyfalaf gwerth isel ac uchel.

- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn barod i dalu'r tâl gweinyddu i gael mynediad i'r cyllid cyfalaf. Mae'r incwm amcangyfrifedig cyffredinol o'r tâl hwn yn cynrychioli 1.6% o gyfanswm y grant cyfalaf ac fe'i hystyrir yn lefel gymesur o gost i'r ymgeiswyr.

### 4.7. Risgiau

| Risg | Disgrifiad | Lliniaru |
|---|---|---|
| **Grantiau** | Os nad yw gwerth grantiau unigol neu gynllun grant cyffredinol yn ddigonol, efallai na fydd y cynllun yn cael effaith sylweddol ar amcanion gwariant a buddion. | Ymgysylltu â'r farchnad wrth ddylunio grantiau ac ar gyfer pob galwad ariannu. Adolygu llwyddiant pob galwad ariannu, a phrosiectau cyflawni ac addasu sgôp i adlewyrchu adborth. Ystyried cynyddu gwerthoedd grant a sicrhau cyllid ychwanegol. |
| **Cyllideb** | Os yw costau'r prosiect yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd ar gyfer deilliannau, efallai y bydd y cynllun yn cael ei leihau neu'n anfforddiadwy | Ymgysylltu â'r farchnad i brofi rhagdybiaethau. Asesiad manwl o'r costau drwy ddatblygiad. Sicrhau nad yw cost cyflawni yn bopeth-neu-ddim, fel bod cost uned uwch yn golygu cyflawni llai o gyfaint, nid methiant cyflawni. |
| **Tâl gweinyddu** | Os bydd y tâl gweinyddu sy'n cael ei gymhwyso i ymgeiswyr llwyddiannus yn llesteirio ymgeiswyr, efallai y bydd llai o'r gronfa cyfalaf yn cael ei chyflwyno, gan beryglu cyflawni'r amcanion gwariant a'r buddion. | Ymgynghori ag ystod o ddarpar ymgeiswyr i sicrhau bod ffioedd gweinyddu yn gymesur ac yn fforddiadwy ar draws ystod o werthoedd prosiect. Adolygu'r ffioedd gweinyddol drwy oes y prosiect a'u hadolygu lle bo angen a sicrhau bod y prosiect yn parhau i fod yn fforddiadwy. |
| **Galw** | Os nad oes digon o alw am y grantiau ar y gwerthoedd lleiaf a ragnodir yn y cynllun, mae'r costau sy'n gysylltiedig â chyflawni a gweinyddu yn anfforddiadwy. | Bydd angen ymgynghori trylwyr ag ymgeiswyr posibl wrth ddylunio'r cynllun a bwriedir cynnal lefel uchel o weithgarwch ymgysylltu, hyrwyddo a hybu'r galw i sicrhau digon o geisiadau o safon. |
| **Gweinyddu datganiadau o ddiddordeb aflwyddiannus** | Os yw'r cynllun yn denu nifer fawr o geisiadau aflwyddiannus, gall cost gweinyddu'r rhain fod yn fwy na'r incwm a sicrhawyd o geisiadau llwyddiannus, gan beryglu fforddiadwyedd y cynllun. | Bydd angen i ddyluniad y cynllun grant ystyried dulliau effeithiol o brosesu mynegiannau o ddiddordeb yn effeithlon, fel mai dim ond y rhai sydd â thebygolrwydd uchel o lwyddo fydd yn cael eu derbyn i fynd ymlaen i gais llawn. Bydd angen cydbwyso meini prawf y cynllun yn briodol i annog ceisiadau a gosod gofynion cymhwysedd sy'n lleihau'r risg o fethu â darparu buddion. |

### 4.8. Crynodeb Achos Ariannol

| | | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf | | |
| | Costau cyfalaf | £ 19,491,198 |
| | Wrth Gefn | £ 47,950 |
| | **Cyfanswm costau cyfalaf (CAPEX)** | **£19,539,148** |
| Gwariant Refeniw | | |
| | Costau refeniw | £ 318,829 |
| | Wrth Gefn | £ 63,766 |
| | **Cyfanswm Costau Gweithredu (OPEX)** | **£ 382,595** |
| Costau'r prosiect | | |
| | Costau'r prosiect | £ 19,810,027 |
| | Arian wrth gefn y prosiect | £ 111,716 |
| | **Cyfanswm costau'r prosiect (cyhoeddus)** | **£ 19,921,743** |
| Incwm y prosiect | | |
| | Tâl gweinyddu cynllun ymgeiswyr | £318,829 |
| Cost net y prosiect (cyhoeddus) | | £ 19,914,593 |
| | Buddsoddiad preifat | £ 19,251,448 |
| | **Cyfanswm y costau (Cyhoeddus Net + Preifat)** | **£ 38,854,362** |

*Tabl 7 Crynodeb o gostau'r prosiect*

# 5. Achos Rheolaethol

### 5.1. Methodoleg

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi datblygu Fframwaith Rheoli Prosiectau sy'n amlinellu sut y bydd prosiect Bwrdd Uchelgais yn cael ei ddiffinio, ei gyfarwyddo, ei reoli a'i gyfathrebu. Mae'r Fframwaith hwn yn cyd-fynd â chanllawiau prosiect Llywodraeth EF gyda dulliau wedi'u teilwra i fodloni gofynion y Bwrdd Uchelgais.

### 5.2. Llywodraethu

Bydd y prosiect Di-wifr Uwch yn cyd-fynd â strwythurau llywodraethu Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd Rheolwr y Prosiect yn adrodd i Reolwr Rhaglen Ddigidol Uchelgais Gogledd Cymru, a lywodraethir gan Fwrdd Prosiect Campysau Cysylltiedig. Bydd gan y prosiect Reolwr Prosiect ac Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO). Mae'r Bwrdd Prosiect yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglen Ddigidol, sydd yn ei dro yn adrodd i'r Bwrdd Portffolio. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yw'r awdurdod sy'n gyfrifol yn y pen draw am gymeradwyo achosion busnes. Mae cynnydd mewn risgiau, problemau a rheoli newid yn cael ei gyfeirio at hierarchaeth uwch yn ôl lefel yr arwyddocâd.

### 5.3. Adnoddau

Bydd y prosiect yn gofyn am gyfuniad o staff ymroddedig ar gyfer gweithgareddau fel rheoli prosiectau, a chefnogaeth ar gyfer materion arbenigol fel gweithgareddau technegol, ariannol, cyfreithiol, masnachol a sefydlu grantiau. Dylai'r prosiect gael adnoddau gan dîm o adnoddau prosiect mewnol

ac allanol a chefnogaeth gan PMO Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd dull hybrid yn sicrhau bod y capasiti a'r galluoedd angenrheidiol ar gael, a bydd rhai ohonynt yn rhai tymor byr neu o natur arbenigol. Bydd angen lefel uchel o hybu'r galw ac ymgysylltu â'r farchnad i sicrhau bod cwsmeriaid a phartneriaid yn y sector preifat yn cael eu hannog i wneud cais am gronfeydd y cynllun. Mae'r Achos Ariannol yn nodi 1 FTE i gefnogi'r gweithgareddau hyn.

#### 5.3.1. Gweithredu'r Cynllun

Bydd angen 0.5 FTE ar weithrediad y cynllun i weinyddu'r cynllun a phanel i werthuso ceisiadau:

- Cyhoeddi galwadau ariannu a rheoli'r broses ymgeisio ynghyd ag unrhyw eglurhad
- Ceisiadau brysbennu i sicrhau bod y meini prawf cymhwysedd wedi'u bodloni
- Cydlynu'r gwerthusiad o geisiadau cymwys
- Rhoi gwybod i ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus
- Gweinyddu ac olrhain dyfarnu arian yn erbyn cyllideb Uchelgais Gogledd Cymru

#### 5.3.2. Gweithgareddau Sgiliau a Hyfforddiant

Er mwyn darparu buddion o brosiectau cyflenwi di-wifr uwch, efallai y bydd angen hyfforddiant ar fuddiolwyr i fanteisio i'r eithaf ar nodweddion a chyfleoedd y dechnoleg. Mae'r gofynion hyn y tu hwnt i sgôp y prosiect hwn, ond bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn hwyluso mynediad i gyrsiau hyfforddi priodol, er enghraifft drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

### 5.4. Cyflawni a Rheoli Prosiectau

#### 5.4.1. Dylunio - Hyd: tua 6 mis

- Diffinio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun grant, a dylunio'r prosesau gweithredol ategol
- Datblygu amserlen amlinellol o rowndiau ariannu

#### 5.4.2. Ymgysylltu â'r farchnad - Hyd: tua 6 mis ochr yn ochr â Dylunio.

- Ymgysylltu â'r farchnad i gadarnhau y bydd y dull arfaethedig yn ddeniadol i'r farchnad ac y bydd yn gallu cyflawni'r buddion a fwriadwyd
- Ymgysylltu â phartneriaethau sgiliau lleol i nodi cyfleoedd i gefnogi gweithgareddau hyfforddi Datblygu a chyhoeddi hysbysiadau'r farchnad
- Datblygu pecynnau gwybodaeth a fforymau ymgysylltu â chyflenwyr/cwsmeriaid i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun, gan dynnu sylw at y cyfleoedd y mae Di-wifr Uwch yn eu cyflwyno.
- Hybu'r galw drwy greu ecosystem cwsmeriaid sy'n ymgysylltu â phartneriaid Uchelgais Gogledd Cymru a darpar gwsmeriaid i adnabod lleoliadau a defnyddio achosion ar gyfer gwneud cais di-wifr uwch
- Creu ecosystem cadwyn gyflenwi di-wifr uwch ranbarthol sy'n dod â chyflenwyr cydrannau datrysiad a buddsoddwyr ynghyd yn y rhanbarth

#### 5.4.3. Gweithredu'r Cynllun - Fesul rownd ariannu - Hyd: 2.5 mlynedd i ddechrau

- Gosod meini prawf dyfarnu ar gyfer pob rownd a ffocws daearyddol a sector y rownd, gan sicrhau y gall pob rhan o'r rhanbarth elwa o'r gronfa


- Monitro a diweddaru meini prawf cymhwysedd, dylunio a gwerth grant yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd o gyfnodau blaenorol y grant
- Cyhoeddi galwadau ariannu
- Rheoli'r broses ymgeisio ynghyd ag unrhyw gwestiynau am eglurhad a ofynnir
- Cefnogi gwerthuso ceisiadau cymwys gan banel arbenigol
- Rhoi gwybod i ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus
- Gweinyddu ac olrhain dyfarnu arian yn erbyn cyllideb Uchelgais Gogledd Cymru
- Creu astudiaethau achos

### 5.5. Adnoddau Arbenigol

Bydd y prosiect Di-wifr Uwch yn cael ei gefnogi gan adnoddau trydydd parti atodol i ddarparu arbenigedd technegol, ariannol, cyfreithiol, masnachol, caffael a chynllunio cynllun grantiau a sefydlu. Mae PMO Uchelgais Gogledd Cymru yn cynllunio gweithgarwch caffael i sicrhau bod y gofynion ar gyfer yr arbenigeddau cyflawni hyn yn cael eu bodloni cyn i'r prosiectau ddechrau.

### 5.6. Rhagdybiaethau

- Bydd rhanddeiliaid yn cydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru i ddiffinio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer ceisiadau am gyllid. Bydd y meini prawf yn cydnabod unrhyw ofynion a nodir gan ffynonellau cyllid Uchelgais Gogledd Cymru, er enghraifft cyllid cyfatebol buddiolwr, cyfyngiadau cyfalaf a refeniw ac yn y blaen.
- Bydd y farchnad yn cynorthwyo i addysgu cwsmeriaid fel rhan o'i darpariaeth gwerthiant a marchnata.
- Gallai'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol chwarae rôl wrth ymgysylltu â chwsmeriaid a hwyluso gweithgareddau sgiliau a hyfforddiant lle bo angen.




*Ffigwr 4 Crynodeb o adnoddau'r prosiect*

Mae Swyddfa Rheoli Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru wedi datblygu Strategaeth Rheoli Risg a Phroblemau i'w defnyddio ar draws holl brosiectau'r Cynllun Twf. Mae'r strategaeth yn ymdrin â rheoli risgiau a phroblemau ar draws sawl categori gan gynnwys rheoleiddio, amgylcheddol, ariannol, enw da a chymdeithasol, darparu rhaglenni a phrosiectau ac iechyd a diogelwch. Bydd y gofrestr risg yn eiddo i'r SRO ac yn cael ei rheoli gan y Rheolwr Prosiect. Caiff risgiau eu hadolygu a'u craffu yn holl gyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen a'u dyrchafu i'r Bwrdd Rhaglen lle bo angen.  Bydd Rheolwr y Rhaglen yn cael mynediad at, a goruchwylio cofrestr risg y prosiect gyda chylch gwaith i herio a darparu swyddogaeth sicrhau ansawdd.

Y Broses Dyrchafu Risgiau

- Risgiau Prosiect > Rhaglen: Caiff risgiau prosiect o bryder sylweddol eu dyrchafu i'w hystyried fel rhan o'r Gofrestr Risg Rhaglen os ystyrir eu bod yn fygythiad i'r rhaglen ehangach a'i buddion disgwyliedig.

- Risgiau Rhaglen > Portffolio: Caiff risgiau rhaglen o bryder sylweddol eu dyrchafu i'w hystyried fel rhan o'r Gofrestr Risg Portffolio os ystyrir eu bod yn fygythiad i'r rhaglen ehangach a/neu nodau strategol y Bwrdd Uchelgais.

| Risg | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|
| Os oes diffyg adnoddau masnachol a gweithredu i gefnogi gwaith sefydlu'r cynllun | Mae'r prosiect yn cael ei ohirio neu ddim mor llwyddiannus. | Deall a disgrifio'r goblygiadau adnoddau yn ddigon cynnar i ganiatáu digon o amser arweiniol i Uchelgais Gogledd Cymru nodi a phenodi adnoddau priodol |
| Os nad oes cyllid refeniw ar gyfer gweithredu'r cynllun grant di-wifr uwch ar gael | Ni ellir cyflawni'r prosiect. | Chwilio am ffynonellau cyllid refeniw. Ystyried dichonoldeb cyfraniad partneriaid Uchelgais Gogledd Cymru, neu gyfraniad cwsmeriaid fel rhan o'r meini prawf cymhwysedd. |
| Os yw cynllunio a chyfyngiadau eraill yn rhwystro cynnydd prosiectau cyflawni buddiolwyr sy'n deillio o hynny | Mae amserlenni yn anodd i brosiectau gyflawni | Nodi ffyrdd y gall partneriaid y Cyngor gael gwared ar rwystrau i leoliad, e.e. hwyluso mynediad at seilwaith presennol. Cynllunio yn gynnar ar gyfer yr eitem amser arweiniol hir hon |
| Os oes diffyg diddordeb a manteisio ar y cynllun grant | Mae'r prosiect yn cael effaith gyfyngedig | Hybu'r galw a chodi ymwybyddiaeth o'r cynllun, buddion rhwydweithiau 5G preifat ac achosion defnydd presennol mewn diwydiannau tebyg. |

Tabl 8.1 Risgiau Cyflawni Allweddol

### 5.7. Rheoli Ansawdd


Mae'n debygol y bydd y cynnyrch a gyflwynir gan y prosiect yn amrywiol o ran eu natur yn amrywio o ddogfennaeth Dechrau i feini prawf cymhwysedd, deunyddiau cyfathrebu, Fforymau Ymgysylltu, prosesau'r cynllun, a deunyddiau canllawiau ymgeisio. Bydd cynnyrch yn cael eu sicrhau a'u derbyn yn unol â dull rheoli ansawdd Uchelgais Gogledd Cymru, naill ai gan Fwrdd Prosiect Campysau Cysylltiedig neu gynrychiolwyr Uchelgais Gogledd Cymru priodol eraill.

### 5.8. Amserlenni Lefel Uchel

Dangosir yr amserlen lefel uchel ar gyfer y prosiect isod. Mae'r cynllun cyflawni prosiect wedi'i gynnwys yn Atodiad C.

### 5.9. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r Farchnad


Bydd ymgysylltu yn sicrhau bod gwleidyddion a rhanddeiliaid allweddol y Bwrdd Uchelgais yn cael eu cynnwys a'u briffio drwy gydol camau dylunio, caffael (lle bo hynny'n briodol), gweithrediad a chamau gweithredu'r prosiect. Ystyrir bod derbyn a chymryd mantais ar ddi-wifr uwch yn her a arweinir gan y galw. Bydd tîm y Prosiect yn ymgysylltu â busnesau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect, ei amcanion a'r cynllun i ysgogi cyfranogiad gan arwain at fwy yn cymryd mantais. Bydd ymgysylltu yn profi gofyniad Uchelgais Gogledd Cymru, yn profi'r rhagdybiaethau arfaethedig ynghylch rheoli a gweithredu'r cynllun, yn profi'r dull masnachol a chyflawni, yn cadarnhau atyniad y cynnig i ymgeiswyr posib y cynllun a phartneriaid yn y farchnad, ac yn annog cyfranogiad.





Ffigwr 52 Cynllun Prosiect Amlinellol

